# Protocol Marwolaethau Cysylltiedig

# Â Gwaith:

# Canllaw Ymarferol

# (Cymru A Lloegr)

# Llofnodwyr y Protocol Marwolaethau Cysylltiedig â Gwaith

| | |
|---|---|
| NPCC National Police Chiefs' Council | **Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC)**<br><br>Mae'r NPCC yn dwyn ynghyd arbenigedd a phrofiad penaethiaid yr heddlu ledled y Deyrnas Unedig, gan ddarparu fforwm proffesiynol i helpu i gyflawni plismona effeithiol. Marwolaethau cysylltiedig â gwaith - bydd yr heddlu yn derbyn uchafiaeth ar gyfer yr ymchwiliad nes bod unrhyw amheuaeth o drosedd yn gysylltiedig â dynladdiad yn cael ei ddiystyru. Ym mhob achos, bydd yr heddlu yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau ymchwilio a grymuso eraill. |
| | **Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig (BTP)**<br><br>Mae BTP yn gyfrifol am ymchwilio i bob achos o farwolaeth ar seilwaith y Rheilffordd a, pryd bynnag sy'n briodol, bydd yn cyflwyno ffeiliau i Wasanaeth Erlyn y Goron i ystyried cyhuddiadau troseddol am Lofruddiaeth, Dynladdiad a Dynladdiad Corfforaethol. Mae BTP yn gweithio'n agos gyda phartneriaid fel Swyddfa'r Rheilffyrdd a Ffyrdd (ORR) a'r Gangen Ymchwilio i Ddamweiniau Rheilffordd (RAIB) i sefydlu uchafiaeth ar gyfer achosion a sicrhau bod materion perthnasol yn cael eu hymchwilio. |
| NFCC National Fire Chiefs Council | **Cyngor y Penaethiaid Tân Cenedlaethol (NFCC)**<br><br>Yng Nghymru a Lloegr, mae awdurdodau Tân ac Achub yn gyfrifol am orfodi Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 ym mhob math o safleoedd ac eithrio safleoedd a gynhwysir mewn tŷ a ddefnyddir fel annedd breifat sengl. Mae rhai Awdurdodau yn gorfodi gofynion trwyddedau ffrwydradau a phetroliwm. |
| CPS | **Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS)**<br><br>Y CPS yw'r prif awdurdod erlyn yng Nghymru a Lloegr ac mae'n gyfrifol am erlyn pob cyhuddiad troseddol sy'n deillio o farwolaethau cysylltiedig â gwaith, ac eithrio achosion lle mai'r unig gyhuddiadau i'w dilyn yw'r rhai sy'n berthnasol o dan y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc. Bydd y CPS yn erlyn achosion dan amgylchiadau eithriadol yn unig. |
| CareQuality Commission | **Y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC)**<br><br>Y CQC yw'r rheoleiddiwr iechyd a gofal annibynnol yn Lloegr. Rydym yn rheoleiddio darpariaeth gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gan y rheini sydd wedi'u cofrestru â'r CQC ac yn erlyn darparwyr nad ydynt wedi'u cofrestru. |
| Arolygiaeth Gofal Cymru Care Inspectorate Wales | **Arolygiaeth Gofal Cymru (AGG)**<br><br>AGC yw'r arolygiaeth a'r rheoleiddiwr annibynnol dros ofal cymdeithasol yng Nghymru. Rydym yn rheoleiddio darparwyr gofal plant a gofal cymdeithasol sydd wedi cofrestru ag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac yn gorfodi camau gweithredu yn erbyn darparwyr nad ydynt wedi'u cofrestru. |

| | |
|---|---|
| HSE | **Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)**<br><br>Mae HSE yn gorfodi Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc. 1974 mewn amrywiaeth o sectorau, gan gynnwys gweithgynhyrchu cyffredinol, adeiladwaith, diogelwch nwy domestig, amaethyddiaeth, gwasanaethau cyhoeddus a chwareli, peryglon sylweddol ar y tir (yn cynnwys mwyngloddiau, ffrwydradau, cyfryngau biolegol, gweithgynhyrchu cemegol a phetrogemegol) a pheryglon sylweddol ar y môr (yn cynnwys gosodiadau olew a nwy). |
| Local Government Association | **Cymdeithas Llywodraeth Leol**<br><br>Mae Awdurdodau Lleol yn Lloegr yn gorfodi Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc. 1974 sy'n cwmpasu ystod eang o weithgareddau gwaith a gweithleoedd sydd â lefelau gwahanol o risg i iechyd a diogelwch mewn amrywiaeth o sectorau, gan gynnwys manwerthu, swyddfeydd, cyfanwerthu / warysau manwerthu, lletygarwch a hamdden (yn cynnwys gwestai, gwerysllfeydd, bwytai, clybiau nos, sinemâu, clybiau cymdeithasol, cyfleusterau chwaraeon, caeau rasio, llogi cychod pleser, amgueddfeydd, theatrau, orielau celf), mannau addoli, trefnwyr angladdau, gofal anifeiliaid, gwasanaethau therapiwtig a harddwch, cartrefi gofal a gofal plant cyn-ysgol preifat. |
| Maritime & Coastguard Agency | **Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau (MCA)**<br><br>Mae Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau (MCA) yn gyfrifol am reoleiddio a gorfodi safonau diogelwch ym mhob sector llongau. Mae'r Asiantaeth yn cwmpasu cychod y Deyrnas Unedig yn unrhyw le yn y byd a chychod wedi'u cofrestru dramor pan maent yn nyfroedd y Deyrnas Unedig. Mae MCA yn erlyn ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth. |
| MHRA Regulating Medicines and Medical Devices | **Awdurdod Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynnyrch Gofal Iechyd: Yr Adran Dyfeisiau Meddygol (MHRA)**<br><br>Yr MHRA yw awdurdod rheoleiddio'r Deyrnas Unedig ar gyfer meddyginiaethau a dyfeisiau meddygol. Mae'r Adran Dyfeisiau Meddygol yn ymchwilio i bob achos a adroddir sy'n ymwneud â dyfeisiau meddygol a ddefnyddir mewn ysbytai, gofal cynradd a sefydliadau gofal cymdeithasol. Rydym yn gweithio'n agos â'r HSE, yr Heddlu a'r Crwneriaid yn achosion sy'n ymwneud â marwolaethau cleifion, fel sy'n briodol. |
| ONR | **Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR)**<br><br>Mae'r ONR yn gyfrifol am reoleiddio iechyd a diogelwch ar safleoedd Niwclear Prydain Fawr, safleoedd Amddiffyn Awdurdodedig, safleoedd Llongau Rhyfel Niwclear, ac Adeiladau Newydd Niwclear. Mae'r ONR yn gyfrifol am ymchwilio i Farwolaethau Cysylltiedig â Gwaith a allai ddigwydd ar y safleoedd hynny. |
| ORR OFFICE OF RAIL AND ROAD | **Swyddfa Rheilffordd a Ffordd (ORR)**<br><br>Yr ORR yw'r rheoleiddiwr diogelwch ac economaidd annibynnol ar gyfer rheilffyrdd Prydain. Rydym yn rheoleiddio iechyd a diogelwch ar gyfer y brif rwydwaith rheilffordd gyfan ym Mhrydain, yn ogystal â Rheilffyrdd Tanddaearol Llundain, rheilffyrdd ysgafn, tramiau a'r sector treftadaeth. |
| WELSH LOCAL GOVERNMENT ASSOCIATION | **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**<br><br>Mae Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn gorfodi Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc. 1974 yn yr un amrywiaeth o sectorau â Lloegr (gweler Cymdeithas Llywodraeth Leol am fanylion). |

# Rhagair

Mae'r Protocol Marwolaethau Cysylltiedig â Gwaith yn disgwyl ymchwiliad ar y cyd yn achos marwolaethau yn y gweithle. Diben y *Canllaw Ymarferol* hwn yw cynorthwyo'r heddlu, awdurdodau grymuso ac erlynwyr mewn ymchwiliadau ar y cyd a, pryd bynnag sy'n berthnasol, erlyn achosion mewn perthynas â marwolaethau yn y gweithle. Bwriedir ei ddarllen ar y cyd â'r ddogfen *Marwolaethau cysylltiedig â gwaith: Protocol ar gyfer cyswllt* y mae craidd y *Canllaw Ymarferol* wedi'i dynnu oddi wrtho. Nid yw'r *Canllaw Ymarferol* hwn yn hanfodol, ond mae'n rhoi canllawiau ymarferol ynghylch egwyddorion cyswllt ac ymchwiliad ar y cyd sydd wedi'i eirioli gan y Protocol.

Nid dogfen hyfforddiant mo'r canllaw hwn. Mae wedi'i baratoi yn seiliedig ar y dybiaeth bod y rheini y mae gofyn iddynt ymchwilio i faterion mor ddifrifol a thrasig, o ba bynnag sefydliad, yn gymwys i wneud hynny. Mae'n darparu dull syml i gynnal ymchwiliad ar y cyd i farwolaethau yn y gweithle. Mae'r canllaw, a'r protocol, yn hyrwyddo cyswllt gyda chydweithwyr o awdurdodau grymuso eraill, ac yn hyrwyddo nad yw cyswllt o'r fath yn cael ei adael ar gyfer hap na phenderfyniadau'r unigolion ynghlwm.

Mae'r canllaw hwn hefyd yn cynnig amserlen yn seiliedig ar ddigwyddiadau gyda materion cyswllt yn berthnasol i bob digwyddiad. Mae'r Atodiadau yn cynnwys rhestri gwirio o gamau gweithredu i'w cymryd gan y swyddog cyntaf i gyrraedd y safle dan sylw, y swyddog goruchwylio a'r uwch-swyddog ymchwilio.

Wrth baratoi'r Canllaw Ymarferol, talwyd sylw i'r ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar bob ymchwiliad troseddol. Mae hefyd yn ystyried canllawiau penodol a ddarperir i'r Heddlu o lawlyfrau Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu, gan gynnwys y rheini sy'n ymdrin â dynladdiad, marwolaethau ar y ffordd a Deddf Hawliau Dynol 1998. Cymerwyd yr un ystyriaeth hefyd o bolisïau gweithredol yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, sydd yr un fath â'r canllawiau a roddir i asiantaethau awdurdodau lleol eraill. Mae'r canllaw yn berthnasol i bob achos o farwolaeth cysylltiedig â gwaith, gan gynnwys marwolaethau yn y sefydliadau llofnodol.

Dylai swyddogion yr heddlu fod yn ymwybodol mai yn ogystal â chynnal ymchwiliad troseddol at ddiben pennu a ddylid cyhuddo unigolyn (neu gwmni/sefydliad) o gyflawni trosedd ddifrifol (ar wahân i drosedd iechyd a diogelwch), mae gan yr awdurdod gorfodi perthnasol[1] gyfrifoldeb am sicrhau bod y rhai sydd ar ddyletswydd (a all hefyd fod dan amheuaeth) yn cymryd camau gweithredu ar unwaith i ymdrin â risgiau difrifol, ac i hyrwyddo a chyflawni cydymffurfiaeth barhaus â'r gyfraith.

[1] Diffinnir awdurdod gorfodi perthnasol fel y rheolydd iechyd a diogelwch sydd â chyfrifoldeb am y gweithgaredd neu'r gweithle dan sylw ac mae'n cynnwys HSE, ORR, awdurdodau lleol, MCA a'r Gwasanaethau Tân ac Achub.

# Cyflwyniad

Egyr y *Canllaw Ymarferol* hwn gyda thudalen gynnwys, sy'n ceisio crynhoi'r Protocol ar un dudalen. Mae hyn yn galluogi ymchwilwyr i ystyried eu camau gweithredu yng nghyd-destun y Protocol, a throi at adran berthnasol y canllawiau. Mae atodiadau i'r canllaw hwn yn cynnwys rhestri o gamau gweithredu i'w cymryd gan y swyddog cyntaf i gyrraedd y safle dan sylw, y swyddog goruchwylio a'r uwch-swyddog ymchwilio.

Cyhoeddwyd y canllaw hwn yn gyntaf ar wefan HSE fel y 'Canllaw Ymchwilwyr' fis Mawrth 2004 ac fe'i diweddarwyd fis Medi 2011 a mis Mai 2012. Cafodd ei adolygu gan y Pwyllgor Cyswllt Cenedlaethol ar y Protocol Marwolaethau Cysylltiedig â Gwaith yn 2014, a newidiwyd ei enw i 'Canllaw Ymarferol' a'i gyhoeddi fis Chwefror 2015. Cyhoeddwyd fersiwn ddiwygiedig fis Mehefin 2022. Bwriedir i'r canllaw fod yn ddogfen fyw, hynny yw, gellir ei diweddaru a'i diwygio gan y Pwyllgor Cyswllt Cenedlaethol yn ôl y gofyn.

## Cynnwys y Canllaw Ymarferol

**Adran** **Teitl** **Tudalen**

Contents


1. Penderfynu A Yw'r Digwyddiad Yn Farwolaeth Cysylltiedig Â Gwaith ....................7
2. Gweithredu Cychwynnol ....................8
3. Rheoli'r ymchwiliad ....................9
4. Gwneud Penderfyniadau ....................12
5. Datgelu deunydd ....................15
6. Ymholiadau Arbennig ....................16
7. Cyngor cyn cyhuddo ....................18
8. Y penderfyniad i erlyn ....................19
9. Yr Erlyniad ....................21
10. Crwner EM ....................22
11. Cysylltu Cenedlaethol ....................25
12. Cysylltu Lleol ....................26

ATODIADAU - Rhestri gwirio ....................27
Atodiad 1: Dyletswyddau'r Swyddog Cyntaf ....................29
Atodiad 2: Dyletswyddau'r Swyddog Goruchwylio ....................33
Atodiad 3: Dyletswyddau Uwch-Swyddog Ymchwilio ....................36
Atodiad 4: Ystyriaethau Arbennig ....................38
Atodiad 5: Lle Mae Gan Yr Heddlu Uchafiaeth ....................39

# 1. Penderfynu a yw’r digwyddiad yn Farwolaeth Cysylltiedig â Gwaith

Mae marwolaeth cysylltiedig â gwaith yn farwolaeth a achosir gan ddigwyddiad sy’n codi o waith neu sy’n gysylltiedig â gwaith. Mae’r protocol a’r canllawiau cysylltiedig hefyd yn berthnasol i achosion lle mae’r dioddefwr yn dioddef anafiadau sydd mor ddifrifol nes bod arwydd clir, yn ôl barn feddygol, bod marwolaeth yn debygol.

Gall penderfynu a yw marwolaeth yn un sy’n gysylltiedig â gwaith fod yn anodd. Ar ôl cael eu hysbysu, dylai’r awdurdodau gorfodi perthnasol gysylltu â’i gilydd a chytuno ar ba un ai a yw’r digwyddiad yn un sy’n gysylltiedig â gwaith. Rhaid ystyried pob achos yn ôl ei rinweddau ei hun, efallai na fyddant yn amlwg yn syth, ac felly bydd angen ymholiadau cychwynnol i sefydlu hynny.

Yn ogystal, bydd awdurdodau gorfodi yn cael eu harwain gan eu polisïau, eu gweithdrefnau a’u canllawiau eu hunain wrth benderfynu ar ba un ai a ystyrir y farwolaeth yn un sy’n gysylltiedig â gwaith ai peidio. Dylid gwneud penderfyniad heb oedi. Dylid cadw safle’r digwyddiad yn ddiogel nes bod penderfyniad wedi’i wneud.

### Penderfynu a yw marwolaeth yn un sy’n gysylltiedig â gwaith

Gall y cwestiynau canlynol gynorthwyo i benderfynu a yw marwolaeth yn un sy’n gysylltiedig â gwaith ai peidio:

A oes yna, neu a oedd yna, weithgaredd gwaith neu weithrediad gwaith yn digwydd ar adeg y digwyddiad, ac yn lleoliad y digwyddiad?

A oedd y sawl fu farw / y sawl a anafwyd yn gyflogai neu’n unigolyn hunangyflogedig a oedd yn gweithio ar adeg y digwyddiad?

A oedd y sawl fu farw / y sawl a anafwyd yn aelod o’r cyhoedd a gafodd ei anafu o ganlyniad i weithgaredd gwaith?

Yn achos safleoedd domestig neu gyffelyb, a oes unrhyw waith cynnal a chadw neu atgyweirio diweddar wedi’i wneud e.e. gwaith yn ymwneud â gosodiadau neu declynnau nwy neu drydanol?

Gallai enghreifftiau o ddigwyddiadau sy’n gysylltiedig â gwaith nad ydynt yn amlwg yn syth gynnwys: digwyddiadau nwy neu drydanol mewn llety rhent; anaffylacsis cysylltiedig â bwyd; digwyddiadau traffig y ffordd; digwyddiadau mewn carchardai neu sefydliadau gofal iechyd; adeiladau adfeiledig sy’n cael eu dal at ddibenion buddsoddi neu ddatblygu; ac adeiladau neu strwythurau eraill yn cwympo.

### Diffiniadau

Mae gwaith yn golygu: gwaith a wneir gan gyflogai neu unigolyn hunangyflogedig.

Mae gweithrediadau yn golygu: menter neu fusnes, boed ydyw er elw ai peidio.

Cyflogai yw: unigolyn sy’n gweithio dan gontract cyflogaeth neu brentisiaeth, y gall ei delerau fod wedi’u sefydlu’n ffurfiol ar lafar neu’n ysgrifenedig, neu gall y berthynas fod yn anffurfiol neu wedi’i hensynio; Swyddogion/Cadetiaid yr Heddlu; ac unigolion sy’n gwasanaethu’r Goron.

Unigolion hunangyflogedig yw: unigolion sy’n gweithio i elwa neu i gael eu gwobrwyo, ond heb fod dan gontract cyflogaeth. Gall yr unigolion hyn gyflogi eraill.

# 2. Gweithredu Cychwynnol

Yn y rhan fwyaf o achosion, yr unigolyn cyntaf i gyrraedd y safle dan sylw fydd swyddog yr heddlu, ond efallai na fydd hyn yn wir bob tro. O ganlyniad, bydd disgwyl i Awdurdodau Gorfodi perthnasol eraill sy'n cyrraedd cyn yr Heddlu gymryd camau gweithredu priodol pryd bynnag mae ganddynt y pwerau i wneud hynny.

I gynorthwyo'r swyddog cyntaf i gyrraedd y safle, mae'r rhestri gwirio canlynol wedi'u cynnwys yn Atodiad 1:-

Dyletswyddau'r swyddog cyntaf – Pob Digwyddiad.

Dyletswyddau ychwanegol y swyddog cyntaf – Digwyddiadau Nwy Domestig.

Dyletswyddau ychwanegol y swyddog cyntaf – Marwolaethau ar y Ffordd.

Dyletswyddau ychwanegol y swyddog cyntaf – Digwyddiadau'r Rheilffordd.

Dyletswyddau ychwanegol y swyddog cyntaf – Digwyddiadau Morol.

Ym mhob achos o farwolaeth cysylltiedig â gwaith, dylai swyddog yr heddlu fynychu'r safle dan sylw er mwyn asesu'r sefyllfa, adolygu'r camau gweithredu a wnaed hyd yn hyn a derbyn cyfrifoldeb am yr ymchwiliad. I gynorthwyo'r swyddog goruchwylio sy'n bresennol, darperir y rhestri gwirio canlynol yn atodiadau 2 a 3.

| | |
|---|---|
| Atodiad 2: | Dyletswyddau'r swyddog goruchwylio. |
| | Dyletswyddau ychwanegol y swyddog goruchwylio – Digwyddiadau'r Rheilffordd. |
| | Dyletswyddau ychwanegol swyddog goruchwylio – Digwyddiadau Tân. |
| | Dyletswyddau ychwanegol swyddog goruchwylio – Digwyddiadau yn cynnwys Dyfais Feddygol. |
| Atodiad 3: | Dyletswyddau'r uwch-swyddog ymchwilio |

Dylai'r rhestri gwirio yn Atodiad 1 gynorthwyo'r swyddog cyntaf i gyrraedd y safle dan sylw i gymryd y camau gweithredu priodol. Wedi dweud hynny, y prif gamau gweithredu i'w nodi wrth gyrraedd y safle dan sylw yw:

- diogelu safle'r digwyddiad,
- cyflawni asesiad risg cychwynnol i sicrhau nad yw'r rheini sy'n ymchwilio i'r digwyddiad wedi'u hamlygu i risgiau iechyd a diogelwch sylweddol; a,
- chysylltu â'r awdurdod gorfodi perthnasol.

Wrth gyrraedd y safle dan sylw, gall fod angen i'r awdurdod gorfodi perthnasol gwestiynu tystion posibl, a'r rhai sydd dan amheuaeth hyd yn oed, er mwyn sefydlu a oes angen cymryd camau gweithredu yn syth i fynd i'r afael ag unrhyw risgiau gweddilliol a all fodoli ar ôl y digwyddiad. Gall cwestiynu o'r fath barhau yng nghamau cynnar ymchwiliad ar y cyd i adnabod achosion systemig sylfaenol.

# 3. Rheoli'r ymchwiliad

Pryd bynnag y mae gan fwy nag un awdurdod gorfodi fuddiant mewn marwolaeth, dylid dechrau ymchwiliad i iechyd a diogelwch a/neu droseddau eraill ar unwaith a dylid eu cynnal ar y cyd â'r ymchwiliad o ddynladdiad. Dylid cynnal ymchwiliadau ar y cyd, gydag un o'r partïon yn eu harwain, h.y. yn derbyn uchafiaeth. Yn ogystal, fel rhan o ymchwiliad mae'n bosibl y bydd angen cysylltu ag awdurdodau gorfodi eraill sydd â buddiant, yn ogystal â Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS).

Er y bydd un parti yn derbyn uchafiaeth, dylai bod partïon eraill mewn ymchwiliad ar y cyd yn gweithio gyda'i gilydd ac ochr yn ochr â'i gilydd, gan wneud cynnydd yn eu hymchwiliad cyn gynted â phosibl. Ni ddylai cytuno ar uchafiaeth oedi ymchwiliadau partïon unigol mewn ymchwiliad ar y cyd. Ar gamau cynnar ymchwiliad, dylai'r heddlu ac awdurdodau perthnasol eraill gytuno ar y canlynol:

(a) pwy sy'n derbyn/cadw uchafiaeth;

(b) strategaeth ar gyfer rheolaeth barhaus yr ymchwiliad ar y cyd. Dylai hyn gynnwys adolygiadau ar y cyd rheolaidd ar gynnydd yr ymchwiliad;

(c) llinellau ymholi, naill ai ar y cyd pryd bynnag sy'n berthnasol, neu'r rheini i'w hymchwilio ar wahân gan bartïon yr ymchwiliad ar y cyd;

(d) pa adnoddau sydd eu hangen a sut gânt eu defnyddio/rhannu. Dylai hyn gynnwys defnyddio pwerau penodol gan awdurdod gorfodi (e.e. adran 20 Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc. 1974 neu adrannau 62 i 65 Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008) i sicrhau bod eu defnydd yn angenrheidiol, yn gyfiawn ac yn gyfreithiol, h.y. bod pwerau yn cael eu defnyddio at y dibenion bwriadedig yn unig;

(e) sut fydd deunydd perthnasol a gasglwyd neu a gynhyrchwyd yn ystod yr ymchwiliad yn cael ei gofnodi, ei storio, ei ddatgelu a'i rannu rhwng y partïon. Fel arfer, byddai'n briodol i bartïon yr ymchwiliad rannu deunydd tystiolaethol gyda'i gilydd, neu ganiatáu mynediad ato, wrth i'r ymchwiliad fynd yn ei flaen;

(f) pa arbenigwr a chyngor arbenigol sydd ei angen; ar gyfer pa linellau ymholi, h.y. dynladdiad drwy esgeulustod sylweddol, dynladdiad corfforaethol neu doriadau i reolau iechyd a diogelwch; a sut gânt eu comisiynu a'u hariannu. Y nod yw sicrhau, pryd bynnag sy'n bosibl, bod arbenigwr yn ymdrin â'r materion mewn perthynas â phob trosedd bosibl ar yr un pryd;

(g) sut fydd y deunydd perthnasol sydd i'w archwilio'n fforensig yn cael ei gydlynu, e.e. eitemau ffisegol, tystiolaeth DNA, deunydd digidol;

(h) strategaeth gyfweld sy'n sefydlu adnabod tystion a phobl dan amheuaeth bosibl, gan gynnwys sut, pryd a lle y cânt eu cyfweld. Dylid cynllunio a chynnal cyfweliadau gyda thystion a'r rhai sydd dan amheuaeth, gan gwmpasu pob trosedd honedig pryd bynnag sy'n bosibl;

(i) sut, ac i ba raddau, y dylid ymchwilio i fethiannau corfforaethol neu sefydliadol, a sut a phryd y gofynnir am gyngor gan Wasanaeth Erlyn y Goron. Fel arfer, bydd yn briodol i'r ymchwiliad ystyried methiannau unigol a sefydliadol ochr yn ochr â'i gilydd;

(j) strategaeth ar gyfer hysbysu teulu/perthynas agosaf yr ymadawedig o ddatblygiadau yn yr ymchwiliad. I ddechrau, yr heddlu fydd yn darparu'r cyswllt angenrheidiol. Os bydd uchafiaeth yn trosglwyddo i awdurdod gorfodi arall, dylid cael trafodaeth a chytundeb mewn perthynas â'r ffordd orau o gynnal gohebiaeth gyda theulu/perthynas agosaf yr ymadawedig a thystion;

(k) cysylltu â Chrwner EM, gan gynnwys cyflwyno adroddiadau ffeithiol i'r crwner, datgelu deunydd perthnasol, a sut ddylid gofyn i'r crwner ohirio ei ymchwiliad. Fel arfer, ar gyfer ymchwiliad o unrhyw hyd, bydd yn briodol gwneud cais i ohirio ymchwiliad y crwner;

(l) strategaeth gyfryngau i gymryd i ystyriaeth sensitifrwydd teulu/perthynas agosaf yr ymadawedig ac eraill a oedd ynghlwm â'r digwyddiad, y negeseuon yr hoffa bob parti sy'n ymchwilio i'r

digwyddiad eu cyfleu, ac annog adroddiadau cyson. Fel arfer, bydd yn briodol ymgynghori â phob parti'r ymchwiliad mewn perthynas ag amseriad a chynnwys unrhyw weithgarwch yn y cyfryngau.

Mewn ymchwiliadau mawr, gallai fod yn fuddiol ffurfio grŵp cyswllt strategol er mwyn sicrhau cyfathrebu rhyng-sefydliadol effeithiol, ac er mwyn rhannu ymarferion da, profiadau a gwybodaeth a berthnasol.

## Rhannu Gwybodaeth

Fel arfer, ni ddylai bod unrhyw rwystrau cyfreithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth berthnasol. Wedi dweud hynny, mewn rhai achosion gall fod yn briodol nodi mewn cytundeb ysgrifenedig pa wybodaeth fydd yn cael ei rhannu, pryd a sut gaiff ei rhannu a'r sylfaen gyfreithiol dros wneud hynny.

## Monitro / Adolygu Cynnydd yr Ymchwiliad

Drwy gydol yr ymchwiliad ar y cyd, dylai'r heddlu a'r awdurdod gorfodi perthnasol adolygu cynnydd yr ymchwiliad yn gyson. Dylid cytuno ar gerrig milltir a'u monitro, a dylid cofnodi penderfyniadau allweddol mewn Cofnodion Penderfyniadau Allweddol (pan gânt eu defnyddio) gan bob awdurdod. Er y bydd pob ymchwiliad yn cael eu rheoli'n wahanol, yn achosion lle mae uchafiaeth yn parhau gyda'r heddlu am 3 mis ar ôl y digwyddiad, awgrymir cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r ymchwiliad gan yr heddlu a'r awdurdod gorfodi perthnasol.

Dylid cynnal yr adolygiad ar y cyd a dylai gynnwys yr heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron ac awdurdod gorfodi perthnasol. Dylai:

- asesu cynnydd;
- adolygu'r dystiolaeth sydd wedi'i chasglu hyd yn hyn a gofyn am gyngor gan Wasanaeth Erlyn y Goron, os na ofynnwyd am gyngor eisoes, ar ba un ai a ddylai'r ymchwiliad i achos posibl o ddynladdiad drwy esgeulustod[2] barhau ai peidio;
- lle mae'r heddlu yn cynnal uchafiaeth ar gyfer yr ymchwiliad, yn cytuno (oni bai bod rheswm da dros beidio) bod Gwasanaeth Erlyn y Goron yn gofyn am ohirio ymchwiliad y crwner[3], ac am ohirio unrhyw gwest cysylltiedig; a
- pan nad oes tystiolaeth o ddynladdiad drwy esgeulustod, cytunwch sut a phryd y dylid trosglwyddo uchafiaeth i'r awdurdod gorfodi perthnasol.

Dylid cynnal adolygiadau rhwng partïon mewn ymchwiliad ar y cyd yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod modd cwblhau'r ymchwiliad ac unrhyw erlyniad o ganlyniad cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl. Pryd bynnag y mae angen, awgrymir bod adolygiadau allweddol yn cael eu gwneud blwyddyn a dwy flynedd wedi dyddiad y farwolaeth. Y nod yn gyffredinol yw sicrhau bod ymchwiliadau yn cael eu cwblhau, a bod unrhyw benderfyniad i erlyn yn cael ei wneud cyn gynted â phosibl. Dylai bob parti anelu at sicrhau bod unrhyw erlyniad yn cael ei wneud cyn gynted â phosibl ac eithrio dan amgylchiadau eithriadol, dim hwyrach na 3 blynedd ar ôl y farwolaeth.

---

[2] Mae Dynladdiad drwy Esgeulustod yn golygu 'Trosedd ddifrifol heblaw am dramgwydd iechyd a diogelwch

[3] **Pwerau crwneriaid i ohirio ymchwiliad o dan Atodlen 1 (Adran 11) Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009**

> 1 (1) O dan y rhan hon o'r Ddeddf, rhaid i uwch-grwner ohirio ymchwiliad i farwolaeth unigolyn yn yr achosion canlynol.
>
> (2) Yr achos cyntaf yw pan mae'r awdurdod erlyn yn gofyn i'r crwner ohirio'r ymchwiliad oherwydd y gellir cyhuddo rhywun o—
>
> > (a) ddynladdiad yn ymwneud â marwolaeth yr ymadawedig, neu
> >
> > (b) drosedd (heblaw am drosedd yn y gwaith) yr amheuir yn drosedd gysylltiedig

Yn achosion pan mae'r CQC yn ymchwilio i droseddau, gall ffenestr amser fyrrach fod yn berthnasol oherwydd terfynau amser statudol ar rai troseddau. Dylid trafod a chytuno hyn rhwng partïon mewn ymchwiliad ar y cyd.

## Uwchgyfeirio

Pan mae ymchwiliadau wedi methu, mae'n bwysig bod prosesau clir yn eu lle i sicrhau bod modd uwchgyfeirio materion sy'n oedi'r ymchwiliad i lefel uwch yn effeithlon ac effeithiol. Dylid darparu enwau a manylion cyswllt unigolion ar lefel uwch, ac un lefel yn uwch na hynny, h.y. dwy lefel yn uwch, y prif ymchwilydd / uwch-swyddog ymchwilio, a'u rhannu gan yr heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron ac awdurdod gorfodi perthnasol.

## Oedi

Dylai bod ymchwiliwyr yn ymwybodol drwy'r amser o unrhyw oedi diangen yng nghynydd yr ymchwiliad, a'i osgoi. Drwy ddilyn egwyddorion y protocol a'r canllaw hwn, dylai hynny gynorthwyo i osgoi oedi heb fod angen.

# 4. Gwneud Penderfyniadau

## Dynladdiad drwy Esgeulustod Difrifol a Dynladdiad Corfforaethol

Pryd bynnag mae amheuaeth y gall dynladdiad drwy esgeulustod fod wedi achosi'r farwolaeth, bydd yr heddlu yn derbyn uchafiaeth ar gyfer ymchwiliad ac yn gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau gorfodi perthnasol eraill.

Er mwyn i Wasanaeth Erlyn y Goron ystyried dynladdiad drwy esgeulustod difrifol a dynladdiad corfforaethol, rhaid i ymddygiad y rheini sydd dan amheuaeth o dorri'r gyfraith fod yn llawer is na'r safonau a ddisgwylir gan unigolyn rhesymol yn safle'r Diffynnydd. Mae un camgymeriad, un difrifol hyd yn oed, yn annhebygol (er ddim yn amhosibl) o fodloni'r meini prawf hyn. Rhaid bod elfen o fai go iawn, yn hytrach na rhywun yn gwneud ei orau, sy'n annigonol, dan amgylchiadau anodd.

Ni ellir trosi achos o ddynladdiad drwy esgeulustod difrifol gan sawl unigolyn i olygu bod eu hymddygiad, at ei gilydd, yn is na'r safon ofynnol. Rhaid ystyried yn unigol bob un sydd dan amheuaeth o dorri'r gyfraith. Cynghorir yr heddlu i gysylltu â Gwasanaeth Erlyn y Goron cyn gynted â phosibl i sicrhau y gellir ystyried cyhuddiadau posibl o ddynladdiad corfforaethol neu ddynladdiad drwy esgeulustod difrifol yn brydlon. Mae gan Wasanaeth Erlyn y Goron gyfreithwyr arbenigol i gynorthwyo cydweithwyr yr heddlu efallai nad oes ganddynt lawer o brofiad o'r drosedd sydd ynghlwm â'r achosion hyn.

Bydd llwyddo i erlyn yr achosion hyn yn dibynnu ar strategaeth datblygu achos ofalus, gynyddol, yn tynnu ar adroddiadau gan un neu fwy o arbenigwyr technegol, ac yn aml ymgymerir â nhw mewn cysylltiad ag asiantaethau ymchwilio eraill. Bydd gweithio gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron i adnabod asiantaethau allweddol eraill yn y camau cynnar yn hanfodol i sicrhau bod dilyniant yr achos yn cael ei reoli'n effeithiol.

Nid yw ymchwiliad yr heddlu i achos posibl o ddynladdiad drwy esgeulustod difrifol / dynladdiad corfforaethol yn atal Cangen Ymchwilio i Ddamweiniau rhag cynnal ymchwiliad diogelwch hefyd.

Yn achos R yn erbyn Rose [2017] EWCA Crim 11681, sefydlodd y Llys Apêl yr egwyddorion sy'n berthnasol i ddynladdiad drwy esgeulustod difrifol. Cafodd y rhain eu crynhoi fel a ganlyn:

(1) Mae dynladdiad drwy esgeulustod difrifol yn gofyn torri dyletswydd bresennol i ofalu sy'n rhesymol ragweladwy yn cyflwyno risg ddifrifol ac amlwg o farwolaeth ac sydd, mewn gwirionedd, yn achosi marwolaeth yn achosion lle, mewn perthynas â'r risg o farwolaeth, roedd ymddygiad y diffynnydd mor ddrwg dan bob amgylchiadau nes ei fod yn mynd y tu hwnt i ddigolledu ac yn cyfrif fel trosedd neu esgeulustod;

(2) Felly, mae pum elfen y mae'n rhaid i'r erlyniad eu profi er mwyn i unigolyn fod yn euog o drosedd o ddynladdiad drwy esgeulustod difrifol:

   (a) Y diffynnydd yn meddu ar ddyletswydd bresennol i ofalu am y dioddefwr;
   (b) Y diffynnydd wedi torri'r ddyletswydd honno i ofalu drwy esgeulustod;
   (c) Roedd yn rhesymol rhagweladwy bod torri'r ddyletswydd honno yn cyflwyno risg ddifrifol ac amlwg o farwolaeth;
   (d) Mae torri'r ddyletswydd honno wedi achosi marwolaeth y dioddefwr;
   (e) Amgylchiadau'r achos o dorri'r ddyletswydd yn wirioneddol eithriadol ddrwg ac mor feius nes ei fod yn cyfiawnhau'r casgliad ei fod yn cyfrif fel achos o esgeulustod difrifol ac yn gofyn cosb droseddol;

(3) Rhaid gofyn y cwestiwn ynghylch pa un ai a oes risg ddifrifol ac amlwg o farwolaeth yn seiliedig ar wybodaeth ar adeg yr achos o dorri'r ddyletswydd, a'i asesu mewn perthynas â hynny;

(4) Nid yw risg adnabyddadwy o rywbeth difrifol yr un fath â risg adnabyddadwy o farwolaeth, ac

(5) Nid yw'r mân bosibilrwydd y gall asesiad ddatgelu rhywbeth sy'n peryglu bywyd yr un fath â risg amlwg o farwolaeth: risg amlwg yw risg sy'n bresennol, yn glir ac yn ddiamwys, nid un a all ddod yn amlwg wrth ymchwilio ymhellach.

Nid yw'r dyfarniad yn achos *R yn erbyn Broughton* [2020] EWCA Crim 1093 yn briodol wrth ystyried achosiad, oherwydd ei bod yn cadarnhau mai i brofi achosiad mewn achos o ddynladdiad drwy esgeulustod difrifol, rhaid i'r erlyniad ddangos, pe na fyddai'r diffynnydd wedi bod yn ddifrifol o esgeulus, yna byddai'r ymadawedig wedi byw ac eithrio'r posibilrwydd realistig mai hyd yn oed gyda'r driniaeth berthnasol / ymyrraeth feddygol, mae'n bosibl y byddai'r ymadawiad wedi marw beth bynnag.

Yn achos dynladdiad corfforaethol, mae nifer o elfennau i'r drosedd y mae angen eu profi:

(a) mae'r diffynnydd yn sefydliad cymwys;

(b) y sefydliad wedi achosi marwolaeth unigolyn;

(c) roedd gan y sefydliad ddyletswydd berthnasol i ofalu am yr ymadawedig; ac

(d) roedd achos difrifol o dorri'r ddyletswydd honno a oedd yn llawer is na'r hyn sy'n rhesymol ddisgwyliedig gan y sefydliad dan yr amgylchiadau.

Yn ogystal, ar gyfer dynladdiad corfforaethol, rhaid i ymddygiad (y ffordd roedd gweithgareddau'r cwmni yn cael eu rheoli neu eu trefnu) uwch-reolwyr fod yn rhan sylweddol o'r methiant corfforaethol. Uwch-reolwyr yw'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch sut caiff pob ymddygiad y cwmni, neu'r rhan fwyaf o ymddygiad y cwmni, ei reoli neu ei drefnu.

Wrth benderfynu pa un ai a oes achos difrifol o dorri dyletswydd, rhaid i'r rheithgor ystyried pa un a gafodd unrhyw ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch eu torri, ac os felly, rhaid ystyried:

(i) difrifoldeb yr achos o dorri'r ddyletswydd; a

(ii) graddfa'r risg o farwolaeth yr oedd hynny'n ei chyflwyno.

Felly, mae'r bar i brofi dynladdiad drwy esgeulustod difrifol a/neu ddynladdiad corfforaethol, wedi'i osod yn uchel iawn ac os, ar unrhyw adeg o'r ymchwiliad, daw'n amlwg ei bod yn annhebygol y bydd digon o dystiolaeth i brofi trosedd o'r fath, dylai'r awdurdod gorfodi perthnasol dderbyn uchafiaeth mor hwylus â phosibl.

Bydd yr heddlu/gwasanaeth erlyn y goron yn gweithio'n agos â'r awdurdod gorfodi sy'n derbyn uchafiaeth, i sicrhau yn achosion pan wneir y penderfyniad i beidio ag erlyn mewn perthynas â dynladdiad drwy esgeulustod, bod hynny'n cael ei gyfathrebu'n briodol i'r sawl sydd dan amheuaeth a theulu'r dioddefwr yn ogystal â'r awdurdod gorfodi sy'n derbyn uchafiaeth.

## Newid Uchafiaeth a Throsglwyddo Ymchwiliad

Dylai'r ddau barti gofnodi'n ysgrifenedig y newid uchafiaeth drwy lenwi dogfen drosglwyddo. Dylai'r broses drosglwyddo ffurfiol gynnwys trosglwyddo deunydd perthnasol yr ymchwiliad (datganiadau, ffotograffau, llyfrau nodiadau poced, eitemau ffisegol, dogfennau etc.) nad ydynt eisoes wedi'u trosglwyddo i'r awdurdod sy'n derbyn uchafiaeth. Rhaid i ddeunydd perthnasol a gedwir gan yr heddlu, naill ai at ddibenion Imiwnedd Lles y Cyhoedd neu am ryw reswm arall, gael eu datgelu i'r awdurdod sy'n derbyn uchafiaeth i sicrhau y gall gydymffurfio â Deddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996.

Gellir trosglwyddo'r ymchwiliad yn gynnar iawn yn y broses ymchwilio ac, yn achos rhai ymchwiliadau, gall ddigwydd ar ôl i'r heddlu gynnal ymholiadau cychwynnol yn unig. Mae dogfen drosglwyddo wedi'i chreu gan y Pwyllgor Cyswllt Cenedlaethol i'w defnyddio dan amgylchiadau o'r fath.

Pan mae adolygiad tystiolaethol mewn perthynas â dynladdiad drwy esgeulustod wedi'i lywio gan gyngor cyfreithiol gan Wasanaeth Erlyn y Goron, dylid cyflawni'r broses mor hwylus â phosibl. Pan nad yw'r prawf tystiolaethol wedi'i fodloni, dylid trosglwyddo uchafiaeth ar gyfer yr ymchwiliad cyn gynted â phosibl.

Pan mae gan awdurdod gorfodi, heblaw'r heddlu, uchafiaeth ac mae gwybodaeth newydd yn cael ei darganfod sy'n rhoi sail i ail-ystyried pa un ai a oes trosedd dynladdiad drwy esgeulustod wedi digwydd, dylid rhannu'r wybodaeth gyda'r heddlu cyn gynted â phosibl. Dylai'r heddlu benderfynu pa un ai a ddylid derbyn uchafiaeth unwaith eto, gan ymgynghori â Gwasanaeth Erlyn y Goron os yw hynny'n angenrheidiol. Pan mae'r heddlu yn derbyn uchafiaeth unwaith eto, rhaid paratoi dogfen drosglwyddo arall gan yr awdurdod gorfodi sy'n trosglwyddo uchafiaeth. Dylai trosglwyddo gynnwys trosglwyddo deunydd perthnasol nad ydynt eisoes ym meddiant yr heddlu.

Yn ogystal, bydd achlysuron prin lle, o ganlyniad i gwest y crwner, adolygiad barnwrol neu achosion cyfreithiol eraill, efallai y bydd angen ystyried ymhellach y dystiolaeth a'r ffeithiau cysylltiedig. Pan mae hyn yn digwydd, bydd yr heddlu, yr awdurdod gorfodi perthnasol sydd ag uchafiaeth yn yr ymchwiliad a Gwasanaeth Erlyn y Goron yn gweithio mewn partneriaeth i sicrhau penderfyniad cynnar. Mae'n bosibl y bydd angen ymchwiliad pellach.

# 5. Datgelu deunydd

Er mwyn cydymffurfio â gofynion Deddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau 1996, Cod Ymarfer y Swyddfa Gartref dan Ran II Deddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau 1996, a Chanllawiau Datgelu'r Twrnai Cyffredinol, dylai awdurdodau gorfodi gadw a chofnodi pob deunydd perthnasol sydd wedi'i gasglu neu ei gynhyrchu yn ystod yr ymchwiliad.

Dylai rheolaeth a chyswllt effeithiol sicrhau bod awdurdodau gorfodi sy'n cynnal ymchwiliad ar y cyd i ddigwyddiad yn meddu ar fynediad i bob deunydd perthnasol fel y caiff ei gasglu yn ystod yr ymchwiliad. Wedi dweud hynny, hyd yn oed gyda systemau cyswllt a rheoli deunydd effeithiol, mae'n bosibl y bydd deunydd ychwanegol, wedi'i ddefnyddio a heb ei ddefnyddio, nad ydyw wedi'i ddatgelu a'i rannu rhwng awdurdodau, naill ai yn ystod yr ymchwiliad neu wrth drosglwyddo pan mae uchafiaeth ymchwiliad yn newid.

Felly, dylai awdurdodau gorfodi sydd wedi ymchwilio i ddigwyddiad, waeth i ba raddau maent wedi cyfrannu iddo, sicrhau bod pob deunydd yn cael ei ddatgelu a'i rannu gydag awdurdod arall pan geir cais o'r fath. Wrth iddo ddod i'r amlwg a/neu ei dderbyn, dylid cofnodi a dosbarthu'r deunydd yn unol â hynny gan yr awdurdod sydd wedi'i dderbyn.

Dylai cyswllt effeithiol rhwng awdurdodau gorfodi sicrhau bod y gweithdrefnau gofynnol yn cael eu dilyn pryd bynnag y gwneir cais i'r llys guddio deunydd sensitif a fyddai fel arall yn cael ei ddatgelu oherwydd risg o niwed difrifol i fuddiant pwysig i'r cyhoedd.

Dylai'r dull datgelu fod wedi'i amlinellu mewn Dogfen Datgelu Deunydd gan yr awdurdod gorfodi. Dylai'r ddogfen gynnwys y camau a gymerir i gaffael deunydd sydd ym meddiant awdurdodau gorfodi eraill, h.y. deunydd trydydd parti.

# 6. Ymholiadau Arbennig

**Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch**

Yn achos rhai digwyddiadau, yn arbennig y rheini sy'n cynnwys sawl marwolaeth, gall yr HSE, gyda chydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol, benderfynu cynnal ymchwiliad cyhoeddus. Fel arall, gall Bwrdd yr HSE awdurdodi'r HSE, neu unrhyw un arall, i ymchwilio a chynhyrchu adroddiad arbennig.

Dan y fath amgylchiadau, bydd yr heddlu'n darparu unrhyw gefnogaeth a thystiolaeth angenrheidiol i'r unigolyn a benodir i gynnal yr ymchwiliad cyhoeddus, neu i gynnal yr ymchwiliad arbennig, yn amodol ar y rheoliadau perthnasol.

Gall problemau cyfreithiol cymhleth godi pan mae ymchwiliadau cyhoeddus ac ymchwiliadau neu erlyniadau troseddol yn cael eu cynnal ochr yn ochr â'i gilydd. Bydd y llofnodwyr yn anelu at hysbysu cadeiryddion yr ymchwiliad yn gyson ynghylch cynnydd yr ymchwiliad.

Weithiau bydd oedi wrth adrodd am ymchwiliad cyhoeddus er mwyn aros i achosion troseddol ddod i ben, ac ar adegau eraill, efallai na fydd y fath oedi oherwydd bydd cyhoeddi'r adroddiad ac argymhellion yr ymchwiliad cyhoeddus yn gyflym er budd mawr i'r cyhoedd. Yn y naill achos neu'r llall, bydd llofnodwyr y protocol yn cydweithio er mwyn sicrhau y gwneir y penderfyniad i erlyn cyn gynted â phosibl ac y dechreuir unrhyw achosion troseddol heb oedi.

**Y Comisiwn Ansawdd Gofal**

Yn achosion arbennig a dim ond ar gais yr Ysgrifennydd Gwladol, neu gydag awdurdodaeth yr Ysgrifennydd Gwladol, gall y CQC gynnal adolygiad neu ymchwiliad arbennig yn unol ag Adran 48 Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008.

**Ymchwiliad yn cynnwys Canghennau Ymchwilio Damweiniau ('Ymchwiliadau Diogelwch')**

Mae gan y Deyrnas Unedig rwymedigaethau cyfreithiol i gynnal ymchwiliadau diogelwch i ddamweiniau trafnidiaeth awyr, morol a rheilffyrdd i adnabod yr achosion a gwneud argymhellion i atal digwyddiad cyffelyb rhag digwydd eto. Caiff ymchwiliadau diogelwch y Deyrnas Unedig eu cynnal gan dair Cangen Ymchwilio Damwain (AIB), sy'n unedau annibynnol yn yr Adran Drafnidiaeth; sef:

Cangen Ymchwilio Damweiniau yn yr Awyr
Cangen Ymchwilio Damweiniau ar y Môr
Cangen Ymchwilio Damweiniau ar y Rheilffordd

Nid yw'r AIB yn llofnodwyr y Protocol Marwolaethau Cysylltiedig â Gwaith ac mae eu hymchwiliadau diogelwch yn cael eu cynnal yn annibynnol ar ymchwiliadau eraill, ac yn unol â nhw. Nid yw ymchwiliadau diogelwch AIB yn ceisio gweld bai nac atebolrwydd, ac mae gan yr AIB bwerau penodol i ddiogelu tystiolaeth, gan gynnwys hunaniaeth tystion a'r wybodaeth maen nhw'n ei rhoi. Yn ogystal, mae gan arolygwyr AIB bwerau i gael mynediad at safleoedd damwain.

Er y dylai cydweithio a chyfathrebu effeithiol sicrhau bod pob parti yn gallu gwneud cynnydd yn eu hymchwiliadau, bydd digwyddiadau yn codi pan mae'n rhaid i ddiogelwch y cyhoedd gymryd blaenoriaeth dros ymchwiliadau troseddol. Wedi dweud hynny, ymgynghorir â'r heddlu/Gwasanaeth Erlyn y Goron ac unrhyw awdurdod gorfodi perthnasol ym mhob achos.

Yn achos damwain trafnidiaeth yn yr awyr, ar y rheilffordd neu yn y môr, rhaid i sefydliadau sydd wedi llofnodi'r Protocol Marwolaethau Cysylltiedig â Gwaith gysylltu â'r AIB perthnasol cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl. Bydd perthnasoedd gweithio da rhwng asiantaethau gorfodi a'r AIB yn allweddol i sicrhau bod yr ymchwiliadau sy'n cael eu cynnal ochr yn ochr â'i gilydd yn effeithiol. Yn achosion o'r fath, caiff perthnasoedd gweithio eu hwyluso gan gyfres o Femoranda Cyd-ddealltwriaeth, megis y rheini sydd gan yr AIB â Gwasanaeth Erlyn y Goron, yr NPCC, Prif Grwner

Cymru a Lloegr a’r rheoleiddwyr trafnidiaeth perthnasol. Mae’r Memoranda Cyd-ddealltwriaeth hyn yn cyfeirio at y rheoliadau sy’n berthnasol i bob AIB ac yn egluro’n fanylach y prosesau ar gyfer cydweithio, cydlynu, rhannu tystiolaeth pan geir gwneud hynny a, pryd bynnag sy’n briodol, yr angen i flaenoriaethu ymchwiliad diogelwch.

Mae’r Memoranda Cyd-ddealltwriaeth canlynol yn bodoli rhwng AIB a llofnodwyr y Protocol Marwolaethau Cysylltiedig â Gwaith a dylid eu dilyn ym mhob ymchwiliad perthnasol:-

Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Canghennau Ymchwilio Damweiniau’r Deyrnas Unedig a Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu.

Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Gwasanaeth Erlyn y Goron, a’r Canghennau Ymchwilio Damweiniau yn yr Awyr, ar y Môr a’r Rheilffordd.

Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau a’r Gangen Ymchwilio Damweiniau Morol ar gyfer gweithgareddau gorfodi iechyd a diogelwch ac ymchwilio damweiniau yn ffin y dŵr ac ar y môr.

Egwyddorion cydweithio rhwng Cangen Ymchwilio Damweiniau Morol ac Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau

Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Cyngor y Penaethiaid Tân Cenedlaethol a Changhennau Ymchwilio Damweiniau yn yr Awyr, ar y Môr a’r Rheilffyrdd.

Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y Gangen Ymchwilio Damweiniau ar y Rheilffordd, yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a Swyddfa’r Rheilffordd a Ffordd yn ymwneud ag ymchwilio i ddamweiniau a digwyddiadau ar reilffyrdd Cymru a Lloegr.

Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Canghennau Ymchwilio Damweiniau’r Deyrnas Unedig a Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu.

Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y Comisiwn Ansawdd Gofal a’r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)

Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y Comisiwn Ansawdd Gofal a Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu.

# 7. Cyngor cyn cyhuddo

Pan mae amheuaeth bod dynladdiad drwy esgeulustod wedi achosi'r farwolaeth, dylid cynnwys Gwasanaeth Erlyn y Goron ar y cyfle cynharaf ac, os nad felly, dylid eu hymgynghori cyn pen 3 mis o ddechrau'r ymchwiliad. Ni ddylid cyfyngu trafodaethau gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron i'r heddlu, dylid cynnwys pob awdurdod gorfodi arall sy'n ymwneud â'r ymchwiliad.

Mae Adran Trosedd Arbennig Gwasanaeth Erlyn y Goron (sy'n rhan o Adran Trosedd Arbennig a Gwrthderfysgaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron) yn ymdrin yn arbennig â phob achos o ddynladdiad corfforaethol, dynladdiad meddygol a phob achos arall o ddynladdiad drwy esgeulustod difrifol, ac eithrio'r rheini sy'n digwydd yn sgil damweiniau traffig y ffordd neu achosion sy'n cynnwys esgeulustod (gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â phlant, cleifion neu breswylwyr Cartrefi Gofal). Caiff yr achosion diwethaf eu trin gan yr Unedau Troseddau Cymhleth ym mhob Ardal Gwasanaeth Erlyn y Goron.

Mae'r achosion hyn yn gofyn arbenigedd penodol, yn aml o'r cychwyn cyntaf.

Bydd ymgysylltiad cynnar gan gyfreithwyr Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cynorthwyo i gynllunio strategaeth achos i sicrhau bod yr ymchwiliad yn brydlon, wedi'i dargedu ac yn effeithiol. Mae hyn yn debygol o gynnwys:

- Cyngor ac arweiniad ar olrhain llinellau ymholi perthnasol.
- Natur unrhyw erlyniad o ddynladdiad (unigol neu gorfforaethol).
  Y dewis o arbenigwyr, gan gynnwys paratoi cylch gorchwyl manwl ar gyfer yr arbenigwyr hynny.

Ni ddylid cyfyngu trafodaethau rhwng yr heddlu, awdurdodau gorfodi eraill a Gwasanaeth Erlyn y Goron i faterion yn ymwneud â dynladdiad. Dylent hefyd gynnwys llinellau ymholi, defnyddio tystiolaeth gan arbenigwyr a throseddau posibl, e.e. troseddau iechyd a diogelwch neu amgylcheddol.

Fel y nodir yn adran 4 y canllawiau hyn, os, ar unrhyw adeg yn ystod yr ymchwiliad, y daw'n glir nad oes digon o dystiolaeth bod trosedd o ddynladdiad drwy esgeulustod wedi achosi'r farwolaeth, dylid trosglwyddo uchafiaeth yr ymchwiliad i'r awdurdod gorfodi perthnasol cyn gynted â phosibl.

# 8. Y penderfyniad i erlyn

Dylai Gwasanaeth Erlyn y Goron wneud y penderfyniad i erlyn unrhyw drosedd o ddynladdiad drwy esgeulustod sy'n codi yn sgil marwolaeth heb unrhyw oedi diangen ar ôl cael ffeil lawn gan yr awdurdod sy'n ymchwilio. Dylai unrhyw oedi diangen wrth wneud penderfyniadau i erlyn a'r rhesymau cysylltiedig gael eu cyfathrebu'n brydlon i'r heddlu a'r awdurdod gorfodi perthnasol. Dylai cyswllt effeithiol rhwng Gwasanaeth Erlyn y Goron, yr heddlu, ac awdurdodau gorfodi eraill sicrhau bod pob parti yn cael y diweddaraf ynghylch cynnydd yr achos. Yn ogystal, gall awdurdodau grymuso gynorthwyo Gwasanaeth Erlyn y Goron yn ei benderfyniad drwy roi cyngor ar ddeddfwriaeth berthnasol arall, codau ymarfer, canllawiau a safonau cymeradwy eraill.

Yn ogystal â'r drosedd o ddynladdiad drwy esgeulustod[4], fel arfer dylai Gwasanaeth Erlyn y Goron ystyried a ddylid erlyn unrhyw droseddau iechyd a diogelwch cysylltiedig yn erbyn y diffynnydd hwnnw neu unrhyw ddiffynnydd arall. Wrth ystyried troseddau eraill, bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn ymgynghori ag awdurdodau gorfodi perthnasol, ac yn rhoi ystyriaeth lawn i'w barn[5]. I gynorthwyo Gwasanaeth Erlyn y Goron, ar gais, dylai'r awdurdod gorfodi perthnasol gynnig cyngor ar droseddau posibl cysylltiedig ag iechyd a diogelwch.

Ar ôl gwneud ei benderfyniad, dylai Gwasanaeth Erlyn y Goron hysbysu'r heddlu, y crwner, yr awdurdodau gorfodi perthnasol a'r gangen ymchwilio i ddamweiniau pryd bynnag mae hynny'n berthnasol a chyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl. Pan nad yw Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cynnig erlyniad mewn perthynas â dynladdiad drwy esgeulustod a/neu droseddau eraill, bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn gweithio'n agos â'r awdurdod gorfodi perthnasol, os wneir cais am hynny, i ddangos sut a pham mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi dod i'r penderfyniad hwnnw. Cyn cyfathrebu penderfyniad yr erlyniad i'r sawl sydd dan amheuaeth a theulu/perthynas agosaf yr ymadawedig[6], dylai Gwasanaeth Erlyn y Goron ymgynghori â'r awdurdod gorfodi perthnasol i gytuno ar gynnwys unrhyw ohebiaeth i sicrha wneir unrhyw niwed i erlyniad yn y dyfodol mewn perthynas â'r troseddau eraill, e.e. troseddau iechyd a diogelwch. Ni ddylai unrhyw barti ddatgelu unrhyw safbwyntiau a fynegwyd gan Wasanaeth Erlyn y Goron neu awdurdod gorfodi arall yn ystod yr ymgynghoriad.

Wrth hysbysu penderfyniad yr erlyniad i'r rhai sydd mewn profedigaeth, dylai Gwasanaeth Erlyn y Goron egluro y bydd uchafiaeth yr ymchwiliad yn cael ei throsglwyddo i'r awdurdod gorfodi perthnasol, a fydd yn olrhain erlyniad ar ôl cwblhau ei ymchwiliad. Wrth dderbyn uchafiaeth ar gyfer yr ymchwiliad, dylai'r awdurdod gorfodi perthnasol sicrhau bod trefniadau cyswllt priodol yn cael eu gwneud gyda'r rhai mewn profedigaeth.

---

[4] *Mae rolau a chyfrifoldebau Gwasanaeth Erlyn y Goron, yr heddlu a chrwneriaid mewn ymchwiliadau sy'n cyflwyno amheuaeth bod trosedd o ddynladdiad drwy esgeulustod wedi'i chyflawni, wedi'u nodi yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Gwasanaeth Erlyn y Goron, Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu, y Prif Grwner a Chymdeithas Crwneriaid Cymru a Lloegr.*

[5] *Dim ond y CQC all erlyn trosedd o fethu â chydymffurfio â Rheoliadau 2014 Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Gweithgareddau Rheoledig) 2008, gan gynnwys methu â darparu gofal a thriniaeth ddiogel yn arwain at niwed diangen neu risg sylweddol o niwed diangen, oni bai bod y Twrnai Cyffredinol yn rhoi caniatâd ysgrifenedig i unigolyn arall (Adran 90 Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008). Mae'r un cyfyngiadau yn berthnasol wrth erlyn darparwr anghofrestredig (Adran 10 Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008).*

[6] *Mae gan deuluoedd mewn profedigaeth yr hawl i dderbyn gwasanaethau gan Wasanaeth Erlyn y Goron fel y nodir yn y ddogfen: Gwasanaeth Erlyn y Goron: Gwasanaeth i Deuluoedd mewn Profedigaeth.*

Ni chyhoeddir penderfyniad unrhyw erlyniad nes bod y rhai mewn profedigaeth, Swyddfa'r Crwner ac unrhyw ddiffynyddion posibl wedi'u hysbysu fel sy'n briodol ac yn unol ag unrhyw strategaeth gyfryngau a gytunwyd gan Wasanaeth Erlyn y Goron, yr heddlu ac awdurdodau gorfodi perthnasol. Os nad yw Gwasanaeth Erlyn y Goron am erlyn, dylai'r cyhoeddiad yn y cyfryngau gynnwys, pryd bynnag sy'n berthnasol ac yn briodol, datganiad yn nodi y bydd uchafiaeth ar gyfer yr ymchwiliad yn cael ei throsglwyddo i'r awdurdod gorfodi perthnasol.

Yn dilyn penderfyniad gan Wasanaeth Erlyn y Goron i beidio ag erlyn mewn perthynas â throsedd o ddynladdiad drwy esgeulustod a/neu droseddau perthnasol eraill, dylai'r awdurdod gorfodi perthnasol:

- dderbyn uchafiaeth ar gyfer yr ymchwiliad (gweler y canllawiau ynghylch derbyn uchafiaeth yn adran 4);
- cwblhau ei ymchwiliad;
- cysylltu â'r crwner;
- ystyried penodi un pwynt cyswllt ar gyfer cyswllt â'r teulu; a,
- phenderfynu a ddylid erlyn am drosedd berthnasol cyn gynted â phosibl.

Gall penderfyniad Gwasanaeth Erlyn y Goron neu unrhyw awdurdod gorfodi arall i beidio ag erlyn fod yn destun hawliau dioddefwr i adolygiad. Gallai cais o'r fath arwain at newid yn y penderfyniad i beidio ag erlyn. Felly, pan geir y fath gais gan ddioddefwr, dylai Gwasanaeth Erlyn y Goron neu'r awdurdod gorfodi y mae'r cais wedi'u cyrraedd, gysylltu'n syth â'r canlynol:

- y parti perthnasol sydd wedi derbyn uchafiaeth ar gyfer yr ymchwiliad; ac
- unrhyw barti arall sy'n gwneud ymchwiliad ar y cyd;

a rhoi gwybod iddynt yn unol â hynny.

# 9. Yr Erlyniad

Yn ogystal ag erlyniadau o ddynladdiad drwy esgeulustod, gall Gwasanaeth Erlyn y Goron benderfynu erlyn am drosedd iechyd a diogelwch neu drosedd arall, ond dim ond ar adegau prin y bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn erlyn troseddau iechyd a diogelwch heb erlyniad arall[7]. Pan mae hyn yn digwydd, nid oes gan yr awdurdod gorfodi perthnasol unrhyw rôl ffurfiol yn yr erlyniad. Wedi dweud hynny, dylai Gwasanaeth Erlyn y Goron barhau i gysylltu â'r awdurdod gorfodi perthnasol i sicrhau ymglymiad a chymorth parhaus mewn perthynas â'r canlynol:

- geirio a natur unrhyw erlyniad iechyd a diogelwch neu erlyniad arall;
- mewn cysylltiad â materion a godwyd yn ystod y prawf;
- unrhyw faterion mewn perthynas â datgelu deunydd (wedi'i ddefnyddio a heb ei ddefnyddio);
- unrhyw gynadleddau achos gyda chyngor;
- paratoi dogfennau allweddol megis y crynodebau achos, trosolwg o ddadleuon etc.:
- hysbysu teulu'r ymadawedig a thystion am y diweddaraf;
- cyhoeddi'r penderfyniad;
- penderfyniadau allweddol mewn perthynas â sut yr erlynwyd, yn enwedig unrhyw benderfyniad i dynnu'n ôl trosedd iechyd a diogelwch, derbyn ple euog, neu ble o unrhyw fath;
- darparu gwybodaeth ynghylch unrhyw gais am gostau i'w wneud ar ran unrhyw awdurdod gorfodi yn achos erlyniad.

Pan mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn erlyn trosedd o ddynladdiad drwy esgeulustod, ac nad oes unrhyw droseddau cysylltiedig ag iechyd a diogelwch yn cael eu holrhain, dylai Gwasanaeth Erlyn y Goron roi'r diweddaraf i'r awdurdod gorfodi perthnasol ynghylch cynnydd yr achos ac unrhyw ganlyniad terfynol.

[7] Dim ond y CQC all erlyn trosedd o fethu â chydymffurfio â Rheoliadau 2014 Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Gweithgareddau a Reoleiddir) 2008, gan gynnwys methu â darparu gofal a thriniaeth ddiogel yn arwain at niwed diangen neu risg sylweddol o niwed diangen, oni bai bod y Twrnai Cyffredinol yn rhoi caniatâd ysgrifenedig i unigolyn arall (Adran 90 Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008). Mae'r un cyfyngiadau yn berthnasol ar gyfer troseddau gan ddarparwyr anghofrestredig (Adran 10 Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008).

# 10. Crwner EM

## Ymchwiliadau yn Mynd Rhagddynt

Yn achos ymchwiliad i farwolaeth, bydd y crwner yn cael gwybod drwy'r heddlu a/neu awdurdod gorfodi arall sydd wedi derbyn uchafiaeth. Pan mae'r heddlu yn cadw'r uchafiaeth, bydd yr heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron yn hysbysu a diweddaru'r crwner ynglyn ag a **all** rhywun gael ei erlyn o ddynladdiad[8].

Pryd bynnag y mae ynghlwm, fel arfer mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn gofyn i Grwner EM ohirio ei ymchwiliad crwnerol ac unrhyw gwest. Os wneir cais am hynny, rhaid i'r crwner ohirio'r ymchwiliad crwnerol am o leiaf 28 diwrnod neu am ba bynnag gyfnod hirach a nodir gan y crwner. Gellir ymestyn unrhyw gyfnod gohirio, neu ei ymestyn ymhellach, gan y crwner ar gais Gwasanaeth Erlyn y Goron.

Pan nad yw Gwasanaeth Erlyn y Goron yn ymwneud â'r achos eto, neu fod yr uchafiaeth wedi'i throsglwyddo i awdurdod gorfodi arall, dylai'r heddlu neu awdurdod gorfodi arall ystyried gofyn i Grwner EM ohirio'r ymchwiliad crwnerol ac unrhyw gwest. Gall y crwner ohirio'r ymchwiliad crwnerol os ydyw'n credu ei bod yn briodol gwneud hynny. Wrth ystyried cais i ohirio, dylai'r crwner ystyried unrhyw Femoranda Cyd-ddealltwriaeth a wneir rhwng yr awdurdod gorfodi perthnasol a Chymdeithas Crwneriaid Cymru a Lloegr.

I gynorthwyo Crwner EM i bennu cyfnod gohirio addas, dylai'r heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron (os ydyw'n ymwneud â'r achos) ac awdurdod gorfodi arall roi'r canlynol i'r crwner:

(i) diweddariad ar gynnydd yr ymchwiliad; a

(ii) phryd bynnag sy'n berthnasol, yr amserlenni amcanol ar gyfer amrywiol gamau yr achos troseddol.

## Erlyniad

Pan mae erlyniad o ddynladdiad, neu drosedd gysylltiedig wedi dechrau, dylai Gwasanaeth Erlyn y Goron neu awdurdod erlyn[9] ystyried gwneud cais i'r crwner ei ohirio. Wrth dderbyn cais o'r fath, rhaid i'r crwner ohirio ymchwiliad crwnerol ac unrhyw gwest, lle:

(i) unigolyn wedi ymddangos gerbron Ynad, neu wedi'i ddwyn gerbron Ynad; neu wedi'i erlyn ar dditiad gyda throsedd o ddynladdiad yn cynnwys marwolaeth yr ymadawedig.

---

[8] Mae trosedd o ddynladdiad yn golygu –

llofruddiaeth, dynladdiad, dynladdiad corfforaethol neu fabanladdiad;

unrhyw drosedd o dan unrhyw un o ddarpariaethau canlynol Deddf Traffig Ffyrdd 1988 (oddeutu 52)—

(i) adran 1 (achosi marwolaeth drwy yrru'n beryglus);

(ii) adran 2B (achosi marwolaeth drwy yrru'n ddiofal, neu'n anystyriol);

(iii) adran 3ZB (achosi marwolaeth drwy yrru: gyrwyr didrwydded, gyrwyr wedi'u diarddel neu yrwyr heb yswiriant);

(iv) adran 3A (achosi marwolaeth drwy yrru'n ddiofal dan ddylanwad diod neu gyffuriau);

trosedd o dan adran 2(1) Deddf Hunanladdiad 1961 (oddeutu 60) (annog neu gynorthwyo hunanladdiad);

trosedd o dan adran 5 Deddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004 (oddeutu 28) (achosi neu ganiatáu marwolaeth plentyn neu oedolyn bregus);

[9] Mae awdurdod erlyn yn golygu—

(a) Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus, neu

(b) unigolyn o ddisgrifiad a bennir gan orchymyn a wneir gan yr Arglwydd Ganghellor.

(ii) awdurdod sy'n erlyn yn hysbysu'r crwner bod unigolyn wedi ymddangos gerbron Ynad, neu wedi'i ddwyn gerbron Ynad; neu wedi'i erlyn ar dditiad gyda throsedd gysylltiedig.

Pan mae erlyniad am drosedd nad yw'n gysylltiedig â dynladdiad yn cael ei gynnig gan awdurdod gorfodi (nad ydyw'n awdurdod erlyn fel y diffinnir gan a48 Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009), mae gan y crwner hawl i ohirio'r ymchwiliad ac unrhyw gwest nes bod yr erlyniad wedi'i gwblhau, os wneir cais am hynny.

Pan mae awdurdod gorfodi yn cynnig olrhain erlyniad mewn perthynas â throseddau iechyd a diogelwch cyn y cwest, dylid ymgynghori'r crwner, ynghyd â'r heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, a theulu'r ymadawedig ac unrhyw un arall sydd â buddiant cyfreithiol yn unol â'r Canllawiau ynghylch achosion troseddol mewn achos o farwolaeth cysylltiedig â gwaith. Wrth ystyried cais i ohirio ymchwiliad crwnerol, dylai'r awdurdod gorfodi perthnasol gyfeirio at unrhyw Femoranda Cyd-ddealltwriaeth perthnasol gyda Chymdeithas Crwneriaid Cymru a Lloegr.

## DATGELIAD

**Rhannu Dogfennau a/neu Adroddiadau a gyflwynwyd i'r crwner gan yr heddlu/Gwasanaeth Erlyn y Goron ac awdurdod gorfodi arall**

Fel y nodir yn rhannau 3 a 5 y canllaw hwn, dylid rhannu deunydd perthnasol rhwng awdurdodau gorfodi sy'n ymwneud â'r ymchwiliad ar y cyd. Pan mae'r heddlu yn cynnal uchafiaeth ar gyfer ymchwiliad, dylai awdurdodau gorfodi eraill drosglwyddo copïau o unrhyw ddogfennau a/neu adroddiadau a gyflwynwyd i'r crwner i'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron, os ydyw'n ymwneud â'r achos.

Yn yr un modd, pan mae uchafiaeth wedi'i throsglwyddo i awdurdod gorfodi arall, dylid trosglwyddo copïau o bob dogfen a/neu adroddiadau a gyflwynwyd i'r crwner gan yr heddlu i'r awdurdod hwnnw. Ym mhob achos, ni ddylid datgelu dogfennau nac adroddiadau i unrhyw barti heb roi rhybudd ysgrifenedig i'r awdurdod a'u cyflwynodd yn wreiddiol i'r crwner.

Mae Atodlen 5 Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 yn rhoi pŵer i'r crwner alw ar dystion a gorfodi cynhyrchu tystiolaeth at ddibenion ymchwiliad neu gwest drwy hysbysiad ysgrifenedig. Rhagwelir y bydd crwneriaid yn defnyddio'r pwerau hyn dim ond pan mae gwneud hynny'n angenrheidiol a phan mae dulliau eraill wedi methu. Felly, dylid trafod y mater o ddatgelu deunydd gyda'r crwner, a dylid datgelu deunydd sy'n berthnasol i'r ymchwiliad crwnerol. Wrth ystyried pa ddeunydd sy'n berthnasol, dylai'r heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron ac awdurdodau gorfodi ystyried y materion i'w cadarnhau gan yr ymchwiliad crwnerol fel sy'n ofynnol dan adran 5 Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009.

**Datgelu Dogfennau ac Adroddiadau gan y Crwner i Bartïon â Buddion**

Ar gais i ddatgelu dogfen gan unigolyn â buddiant, dan Reol 13 Rheolau Crwneriaid (Ymchwiliadau) 2013, rhaid i'r crwner ddarparu'r ddogfen (neu gopi) cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol.

Mae'r dogfennau y mae rheol 13 yn berthnasol iddynt yn cynnwys:

(i) adroddiad unrhyw bost mortem;

(ii) unrhyw adroddiad arall sydd wedi'i ddarparu i'r crwner yn ystod yr ymchwiliad; ac

(iii) unrhyw ddogfen arall y mae'r crwner yn ei hystyried yn berthnasol i'r cwest.

Dan Reol 15 Rheolau Crwneriaid (Ymchwiliadau) 2013, gall crwner wrthod darparu dogfen neu gopi o'r ddogfen honno pan mae'r ddogfen yn ymwneud ag achos troseddol posibl neu achos troseddol sydd wedi dechrau, neu nad yw'n berthnasol i'r ymchwiliad crwnerol (h.y. rhywbeth nad yw'r crwner yn bwriadu dibynnu arno mewn cwest). Mae Rheol 15 hefyd yn caniatáu i grwner wrthod darparu dogfen, neu gopi o'r ddogfen honno, pan mae gwaharddiad statudol neu gyfreithiol ar ddatgelu; pan na ellir cael caniatâd unrhyw awdur neu ddeiliad hawlfraint yn rhesymol; ac ar unrhyw gais afresymol.

Os yw’r dogfennau a ddarparwyd i Grwner yn ymwneud ag achosion troseddol posibl ac y credir y byddai eu datgelu i unigolion sydd â buddiant yn gwneud niwed i’r ymchwiliad troseddol neu achosion troseddol y dyfodol, dylai’r awdurdod gorfodi dynnu sylw’r crwner at ei bwerau i gadw/gwrthod datgelu dan Reol 15 uchod. Dylai unrhyw gais i’r crwner gadw/gwrthod datgelu dogfennau gynnwys rhesymau dros sut allai datgelu i bartïon sydd â buddiant wneud niwed i unrhyw erlyniad yn y dyfodol.

Pan na ddatgelir deunydd niweidiol posibl, gall y crwner barhau i’w ddefnyddio i fod yn sail i’r ymchwiliad crwnerol. Er enghraifft, gall y deunydd gynorthwyo’r Crwner i adnabod cwmpas y cwest, y materion y gellir gofyn i bob tyst fynd i’r afael â nhw, a’r posibilrwydd i dystion wneud eu hunain yn euog.

Wrth ystyried a ellir gwneud niwed i ymchwiliad sy’n mynd rhagddo neu erlyniad arfaethedig drwy ddatgelu deunydd, dylai’r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron a/neu awdurdod gorfodi perthnasol gadw’r canlynol mewn cof:

(i) Pan nad yw datganiad tyst yn cael ei ddatgelu, gall y crwner barhau i alw ar yr unigolyn hwnnw fel tyst ac mae’n debygol y bydd yr un dystiolaeth yn cael ei chlywed yn gyhoeddus yn y cwest.

(ii) Wrth sefydlu achosion cyfreithiol, mae’n debygol y bydd y dystiolaeth graidd yn cael ei datgelu i’r diffynnydd yn y camau cynnar fel rhan o ddarparu manylion cychwynnol.

(iii) Pan nad yw datganiad wedi’i gymryd gan dyst pwysig, neu sawl dan amheuaeth sy’n cael ei gyfweld dan rybudd, ac y gall cyhoeddi deunydd cyn hynny achosi niwed, mae’n bosibl i’r crwner gytuno i beidio â datgelu unrhyw ddeunydd niweidiol i bartïon sydd â buddiant nes bod y cyfweliad wedi’i gynnal.

(iv) Gall datgelu datganiad gan dyst i bartïon sydd â buddiant arwain at risg o fygwth, aflonyddu’r tyst, neu ymosod arno.

(v) Pa un ai a yw’r deunydd yn destun braint gyfreithiol, h.y. gohebiaethau cyfrinachol a wneir at ddiben ceisio, caffael neu roi cyngor cyfreithiol. Gall hyn gynnwys adroddiadau neu adroddiadau drafft arbenigol wedi’u paratoi at ddibenion cefnogi erlyniad, yn ogystal ag unrhyw adroddiadau neu ddogfennau mewnol wedi’u cynhyrchu gan yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron neu awdurdod gorfodi.

## 11. Cysylltu Cenedlaethol

Mae Pwyllgor Cyswllt Cenedlaethol Marwolaethau Cysylltiedig â Gwaith yn gyfrifol am fonitro effeithiolrwydd y Protocol Marwolaethau Cysylltiedig â Gwaith, gan gynnwys ei adolygu a gwneud newidiadau iddo, ac unrhyw ganllawiau cysylltiedig, e.e. Canllaw Ymarferol neu Ddogfen Drosglwyddo. Mae'r pwyllgor yn cynnwys cynrychiolwyr o bob sefydliad llofnodol ac yn cwrdd o leiaf dwywaith bob blwyddyn.

Rôl y Pwyllgor Cyswllt Cenedlaethol yw goruchwylio'r protocol, nid cynnydd achosion unigol. Wedi dweud hynny, yn achosion lle mae materion cyswllt sy'n amharu ar yr ymchwiliad ar y cyd, gellir uwchgyfeirio materion i'r Pwyllgor Cyswllt Cenedlaethol er mwyn i'r cynrychiolwyr perthnasol fynd i'r afael ag unrhyw faterion ar lefel uwch gyda'u sefydliadau eu hunain.

# 12. Cysylltu Lleol

Mae naw Pwyllgor Cyswllt Rhanbarthol:

(i) Llundain;

(ii) De-ddwyrain Lloegr;

(iii) De-orllewin Lloegr;

(iv) Dwyrain Canolbarth Lloegr;

(v) Gorllewin Canolbarth Lloegr;

(vi) Swydd Efrog a Gogledd-ddwyrain Lloegr;

(vii) Gogledd-orllewin Lloegr;

(viii) Dwyrain Lloegr; a,

(ix) Chymru

Mae'r pwyllgorau hyn yn cwrdd yn rheolaidd er mwyn trafod materion sydd o ddiddordeb a phryder i bawb ynghlwm, ac yn arbennig, gweithredu'r protocol o safbwynt lleol, er mwyn monitro effeithiolrwydd y protocol, ac er mwyn cyfathrebu unrhyw broblemau i'r Pwyllgor Cyswllt Cenedlaethol.

Dylid codi unrhyw faterion sy'n ymwneud â gweithredu'r protocol, ar wahân i faterion sy'n hynod ddifrifol, ar lefel y Pwyllgor Cyswllt Rhanbarthol i ddechrau mewn ymgais i fynd i'r afael ag unrhyw faterion ar lefel leol drwy'r llinellau cyfathrebu adnabyddadwy ac effeithiol rhwng y sefydliadau llofnodol. Os yw'r cynigion i ddatrys materion ar lefel y Pwyllgor Cyswllt Rhanbarthol yn aflwyddiannus, yna dylid uwchgyfeirio'r mater i lefel y Pwyllgor Cyswllt Cenedlaethol gan gynrychiolwyr y sefydliad llofnodol perthnasol.

## ATODIADAU - Rhestri gwirio

Atodiad 1:

Dyletswyddau’r swyddog cyntaf – Pob Digwyddiad.

Dyletswyddau ychwanegol y swyddog cyntaf – Digwyddiadau Nwy Domestig.

Dyletswyddau ychwanegol y swyddog cyntaf – Marwolaethau ar y Ffordd.

Dyletswyddau ychwanegol y swyddog cyntaf – Digwyddiadau’r Rheilffordd.

Dyletswyddau ychwanegol y swyddog cyntaf – Digwyddiadau Morol.

Atodiad 2:

Dyletswyddau’r swyddog goruchwylio.

Dyletswyddau ychwanegol y swyddog goruchwylio – Digwyddiadau’r Rheilffordd.

Dyletswyddau ychwanegol y swyddog goruchwylio – Digwyddiadau Tân.

Dyletswyddau ychwanegol y swyddog goruchwylio – Digwyddiadau Morol.

Dyletswyddau ychwanegol y swyddog goruchwylio – Digwyddiadau yn cynnwys Dyfais Feddygol.

Adolygiad ar y cyd (hanfodol)

Atodiad 3:

Dyletswyddau’r Uwch-swyddog Ymchwilio.

Atodiad 4:

Ystyriaethau Arbennig.

Atodiad 5:

Lle mae gan yr Heddlu Uchafiaeth.

Mae’r rhestri gwirio ar ffurf tic yn y bocs wedi’u trefnu’n ddilyniannol a’u rhifo. Mae gan bob cam gweithredu sydd wedi’i rifo hyd at dri bocs i’w dicio. Mae gan bob bocs i’w dicio ei golofn ei hun. Y teitl cyntaf yw **Wedi’i gwblhau**. Teitl yr ail golofn yw Adolygu a theitl y drydedd golofn yw **Heddlu yn Unig**.

Mae’r system wedi’i dylunio i fod yn syml ond effeithiol. Ar bob cam, disgwylir i’r defnyddiwr ystyried pob cam gweithredu yn ei dro. Pan mae’r cam gweithredu hwnnw wedi’i gwblhau, yna rhoddir tic yn y bocs **Wedi’i gwblhau**. Yna, bydd y defnyddiwr yn symud ymlaen i’r cam gweithredu nesaf.

Mae ‘tic yn y bocs’ y golofn **Adolygu** yn caniatáu i’r defnyddiwr nodi pan mae cam gweithredu wedi’i ystyried ond heb ei gwblhau, gan adael y cam hwnnw i gael ei adolygu’n ddiweddarach. Mae’r bocsys **Wedi’i gwblhau** ac **Adolygu** wastad yn bresennol ac mae disgwyl i bob defnyddiwr – waeth beth yw eu rhiant-sefydliad – roi tic yn o leiaf dau o’r bocsys hyn.

Mae'r trydydd bocs yn adlewyrchu'r ffaith mai dim ond yr heddlu all ymgymryd â rhai camau gweithredu a thrwy ei gynnwys y cadarnheir bod angen i'r heddlu fynd i'r afael â cham gweithredu penodol, hyd yn oed ar ôl ymgynghori â phartïon eraill. Mae'r bocsys **Heddlu yn Unig** yn dywyll ac nid oes angen rhoi tic ynddynt.

Yr unig newid a geir i'r uchod yw o fewn meysydd hanfodol yr Adolygiad ar y Cyd a'r Adolygiad Beirniadol. Yn y meysydd hyn, dim ond y 'tic yn y bocs' **Wedi'i gwblhau** a geir. Mae hyn yn caniatáu i'r broses gwneud penderfyniadau gael ei chwblhau ac i wneud arwydd clir yn y bocs **Wedi'i gwblhau** o ran pa opsiwn sydd wedi'i ddewis.

# ATODIAD 1: DYLETSWYDDAU'R SWYDDOG CYNTAF

## Dyletswyddau'r swyddog cyntaf – Pob Digwyddiad

**Yn y rhan fwyaf o achosion, swyddog yr heddlu fydd hwn. Wedi dweud hynny, efallai na fydd hyn yn wir bob tro. O ganlyniad, bydd disgwyl i'r Awdurdod Ymchwilio neu Awdurdod Gorfodi perthnasol arall sy'n cyrraedd cyn yr Heddlu gymryd camau gweithredu priodol, oni bai bod y cam gweithredu dan sylw wedi'i nodi yn y categori Heddlu yn Unig.**

**Ar safleoedd niwclear Prydain Fawr, dylai'r swyddog cyntaf i gyrraedd y safle gysylltu â'r Cwnstabliaeth Niwclear Sifil sy'n bresennol ar y safle at ddibenion asesiad risg cychwynnol, ac i gydlynu ymdrech.**

| | Wedi' i gwblhau | Adolygu | Heddlu yn Unig | |
|---|---|---|---|---|
| 1. | | | | Adnabod y safle(oedd) dan sylw. |
| 2. | | | | Cwblhau asesiad risg cychwynnol. Sicrhau bod yr ardal yn ddiogel. |
| 3. | | | | Sefydlu lleoliad y drychineb, bydd angen i'r heddlu drin y corff fel safle ar wahân os ydyw wedi'i symud. |
| 4. | | | | Hysbysu'r swyddog goruchwylio. |
| 5. | | | | Hysbysu'r Crwner. |
| 6. | | | | Gosod a diogelu ffiniau'r safle(oedd) dan sylw. |
| 7. | | | | Dechrau cofnod ysgrifenedig. |
| 8. | | | ■ | Gofyn i Archwilydd Safleoedd Troseddau fod yn bresennol. |
| 9. | | | | Sefydlu pwy a bennodd y farwolaeth. |
| 10. | | | | Adnabod tystion. |
| 11. | | | | Holi a yw'r cyflogwr (neu unigolyn cyfrifol arall) wedi cysylltu â'r heddlu neu awdurdod gorfodi perthnasol. |
| 12. | | | | Yng Nghymru a Lloegr, mae Awdurdodau Tân ac Achub yn gyfrifol am orfodi Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 ym mhob math o safleoedd, ac eithrio anheddau preifat (ond yn cynnwys safleoedd amlfeddiannaeth). Serch hynny, gellir cael rheoleiddwyr eraill sy'n derbyn uchafiaeth am orfodi'r Gorchymyn, yn dibynnu ar y safle a natur y gweithgaredd. Os nad yw'r safle yn un annedd breifat, neu y gallai fod peth amheuaeth ynghylch cyfrifoldeb, yna dylid cysylltu â'r Gwasanaeth Tân ac Achub lleol, a fydd yn cadarnhau pa un a ai nhw yw'r awdurdod gorfodi cywir yn unol ag Erthygl 25 y Gorchymyn ai peidio. |

## Dyletswyddau ychwanegol y swyddog cyntaf – Digwyddiadau Nwy Domestig

| | Wedi' i gwblhau | Adolygu | Heddlu yn Unig | |
|---|---|---|---|---|
| 13. | | | | Pa ddyfeisiau nwy a oedd ymlaen pan ganfuwyd y dioddefwr/dioddefwyr? |
| 14. | | | | Os gwelwyd rhai, a oedd y fflamau nwy yn felyn (mae llosgwr nwy wedi'i addasu'n gywir yn cynhyrchu fflam las, weithiau gyda chanol melyn)? |
| 15. | | | | A oedd unrhyw gyflenwad o awyr iach (ffenestri, drysau yn agored etc) yn yr ystafell lle canfuwyd y dioddefwr/dioddefwyr? |
| 16. | | | | A oes unrhyw olion sylweddol o huddygl uwch ben unrhyw ddyfais nwy, neu o'i chwmpas, yn yr eiddo? |
| 17. | | | | A wnaeth unrhyw aelod o staff y gwasanaeth brys ddioddef o salwch (cur pen, cyfog yn nodweddiadol) wrth fynychu'r eiddo? |
| 18. | | | | A oes pobl eraill yn dal i fod yn yr eiddo a all fod mewn risg petai'r dyfeisiau nwy yn cael eu defnyddio eto? |
| 19. | | | | Ai eiddo rhent yw'r eiddo dan sylw? |
| 20. | | | | Pa bryd a chan bwy yr ardystiwyd y dyfeisiau? |
| 21. | | | | Rhowch wybod i'r Gwasanaeth Argyfwng Nwy Cenedlaethol (0800 111 999). |

## Dyletswyddau ychwanegol y swyddog cyntaf – Marwolaethau ar y Ffordd

| | Wedi' i gwblhau | Adolygu | Heddlu yn Unig | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | **Caiff cyfraith traffig y ffordd ei gorfodi gan yr heddlu ac eraill, yn cynnwys Awdurdodau'r Priffyrdd a Chomisiynwyr Traffig. Yn y rhan fwyaf o achosion, yr heddlu fydd yn arwain ymchwiliad i ddigwyddiadau traffig ar y ffordd ar briffyrdd cyhoeddus. Bydd yr ymchwiliad uniongyrchol 'ar y ffordd' yn parhau i fod yn gyfrifoldeb i'r heddlu ac fel arfer ni ddylai bod arolygwyr HSE/ONR yn bresennol 'ar y ffordd' mewn digwyddiadau traffig ar y ffordd.** |
| 22. | ☐ | ☐ | ■ | Bod yn bresennol ac ymdrin â'r digwyddiad yn unol â Pholisi a gweithdrefnau'r Llu. |
| 23. | ☐ | ☐ | ■ | Yn unol â'r Llawlyfr Ymchwilio i Farwolaethau ar y Ffordd, RHAID hysbysu Uwch-swyddog Traffig, a RHAID iddo fod yn bresennol. |
| | | | | Bydd angen cysylltu â HSE (neu ONR yn achos Nwyddau Peryglus Dosbarth 7) ac efallai y byddant yn dewis bod yn bresennol ar y safle dan sylw os yw'r farwolaeth ar y ffordd yn cynnwys: |
| 24. | ☐ | ☐ | ■ | Amlygiad i sylwedd peryglus sy'n cael ei gludo ar y ffordd |
| 25. | ☐ | ☐ | ■ | Llwytho a dadlwytho gwrthrych neu sylwedd (nid teithwyr) ar gerbyd neu oddi arno. |
| 26. | ☐ | ☐ | ■ | Pan mae cerbydau gwaith a gweithwyr (ddim mewn cerbydau) ynghlwm wrth waith penodol (ar wahân i deithio), e.e. torri gwrych, adeiladu, chwalu, addasu, atgyweirio neu weithgareddau cynnal a chadw neu ochr yn ochr â ffyrdd cyhoeddus a cherbydau cysylltiedig â safle gwaith yn symud allan ond yn agos i safle'r gwaith. |
| | | | | **Bydd angen cysylltu ag ORR, BTP a RAIB ac efallai y byddant yn dewis bod yn bresennol ar y safle dan sylw os yw'r farwolaeth ar y ffordd yn cynnwys:** |
| 27. | ☐ | ☐ | ■ | damwain yn ymwneud â rheilffordd, tramffordd, neu system arall o drafnidiaeth gyfeiriedig. |

## Dyletswyddau ychwanegol y swyddog cyntaf – Digwyddiadau'r Rheilffordd

| | Wedi' i gwblhau | Adolygu | Heddlu yn Unig | |
|---|---|---|---|---|
| 28. | | | | Sicrhau diogelwch Asiantaethau sy'n ymateb drwy gyswllt agos â'r Rheolwr Seilwaith (Network Rail fel arfer) yn unol â Chod Ymarfer Digwyddiadau'r Rheilffordd (Network Rail/ACPO). |
| 29. | | | | Cysylltu â Swyddog Digwyddiadau'r Rheilffordd o'r Rheolwr Seilwaith (Network Rail fel arfer). |
| 30. | | | | Hysbysu a gofyn am bresenoldeb yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig (BTP), ORR a RAIB. |
| 31. | | | | Diogelu'r holl gyfarpar sydd ynghlwm â'r digwyddiad, gan gynnwys wageni. |
| 32. | | | | Dylid ystyried gwneud profion sgrinio anadl gweithwyr perthnasol – cysylltwch â BTP dros y ffôn yn ôl yr angen. |
| 33. | | | | Ymgynghori â BTP, ORR a RAIB ynglŷn â diogelu tystiolaeth oddi ar y safle (bocsys signalau etc). |
| 34. | | | | Ystyried sicrhau'r holl waith papur ar y safle, gan gynnwys briffiau diogelwch etc. |

## Dyletswyddau Ychwanegol y Swyddog Cyntaf – Digwyddiadau Morol

| | Wedi' i gwblhau | Adolygu | Heddlu yn Unig | |
|---|---|---|---|---|
| 35. | | | | Hysbysu MCA/gofyn i MCA fod yn bresennol (Swyddog Gorfodi Dyletswydd ac Arolygydd Dyletswydd). |
| 36. | | | | Hysbysu MAIB / gofyn i MAIB fod yn bresennol. |
| 37. | | | | Gwirio cenedligrwydd y cwch, ac os nad ydyw'n dod o'r Deyrnas Unedig, a oedd y digwyddiad o fewn 12 milltir o'r arfordir? |
| 38. | | | | Os yw'r cwch yn dal i fod yn y môr, dylid gwirio'r porth cyrchfan a'r amseroedd cyrraedd a gadael. |
| 39. | | | | Cysylltu â swyddog gorfodi / arolygydd morol MCA a MAIB i ofyn am arweiniad ynghylch y dystiolaeth bwysig / darfodus y mae'n rhaid ei sicrhau'n syth. Gall hyn gynnwys: |
| 40. | | | | Dogfennau i'w copïo/casglu. |
| 41. | | | | Profion anadl fel sy'n briodol. |
| 42. | | | | Diogelu Cofnodwr Data Mordaith y cwch. |

# ATODIAD 2: DYLETSWYDDAU'R SWYDDOG GORUCHWYLIO

## Dyletswyddau'r swyddog goruchwylio

**Mewn perthynas â digwyddiadau traffig y ffordd sy'n cynnwys marwolaeth (ac eithrio'r rheini a nodir ym mocsys 25-28), bydd y Swyddogion Traffig Goruchwyliol yn bresennol ar y safle ac yn ymdrin â'r digwyddiad yn unol â Pholisïau a Gweithdrefnau'r Llu ac yn unol â'r Llawlyfr Ymchwilio i Farwolaethau ar y Ffordd. Mewn achosion o'r fath, nid oes angen i Swyddogion Traffig Goruchwyliol barhau â'r canllaw hwn y tu hwnt i'r pwynt hwn, ond eu bod yn sicrhau cyswllt a chydlyniant rhwng pob parti ynghlwm.**

**Mewn achosion pan mae bocsys 25-28 yn berthnasol, disgwylir i'r Swyddog Traffig Goruchwyliol gyflawni'r broses Adolygu ar y Cyd.**

**(Bocs 57 a 58 isod).**

| | Wedi' i gwblhau | Adolygu | Heddlu yn Unig | |
|---|---|---|---|---|
| 43. | | | | Adolygu asesiad risg. (Sicrhau bod yr ardal yn ddiogel) |
| 44. | | | | Adolygu ffiniau'r safle. |
| 45. | | | | Sicrhau bod pob dyletswydd y Swyddog Cyntaf wedi'u cwblhau. |
| 46. | | | | Adnabod a hysbysu'r Swyddog Ymchwilio os nad ydyw'n bresennol eisoes. |
| 47. | | | | Briffio swyddogion/gwarcheidwaid y safle. |
| 48. | | | | Caniatáu Cerbyd Rheoli'r Heddlu ar y safle os yw'n angenrheidiol. |
| 49. | | | | Adnabod pob camera Teledu Cylch Cyfyng/Fideo ar y safle neu yng nghyffiniau'r safle a diogelu unrhyw recordiadau perthnasol. |
| 50. | | | | Sicrhau bod Uned Reoli Sylfaenol perthnasol yn ymwybodol o'r digwyddiad. |

## Ac yn achos Digwyddiad ar y Rheilffordd

| | Wedi' i gwblhau | Adolygu | Heddlu yn Unig | |
|---|---|---|---|---|
| 51. | | | | Cysylltu â Swyddog Digwyddiadau'r Rheilffordd ac adolygu trefniadau diogelwch. |
| 52. | | | | Cysylltu â BTP a chytuno ar drosglwyddiad i'r heddlu fel sy'n briodol. |
| 53. | | | | Sicrhau bod ORR, RAIB wedi'u hysbysu. |

## Ac yn achos Digwyddiad Tân

| | Wedi' i gwblhau | Adolygu | Heddlu yn Unig | |
|---|---|---|---|---|
| 54. | | | | Sicrhau bod achos y tân wedi'i sefydlu; mae'n bosibl y bydd angen cyswllt rhwng ymchwilwyr y Gwasanaeth Tân ac Achub, swyddogion safleoedd trosedd a gwyddonwyr fforensig. |
| 55. | | | | Sicrhau bod safonau darpariaethau diogelwch tân wedi'u sefydlu a'u dogfennu er mwyn cydymffurfio â'r Gorchymyn Diogelwch Tân. |
| 56. | | | | Sicrhau bod y dystiolaeth berthnasol yn cael ei chasglu gan y criwiau tân sy'n bresennol, datganiadau, recordiadau fideo etc. |

## Ac yn achos Digwyddiad Morol

| | Wedi' i gwblhau | Adolygu | Heddlu yn Unig | |
|---|---|---|---|---|
| 57. | | | | Cysylltu â MAIB i adolygu trefniadau diogelwch. |
| 58. | | | | Cysylltu â'r MAIB i sefydlu blaenoriaethau ar gyfer sicrhau tystiolaeth ddarfodus. |

## Ac yn achos Digwyddiad yn cynnwys Dyfais Feddygol

| | Wedi' i gwblhau | Adolygu | Heddlu yn Unig | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | **Defnyddir dyfais feddygol i drin cleifion, i roi diagnosis o glefyd neu i leddfu anableddau corfforol. Rhaid i bob dyfais feddygol gael marc CE priodol cyn eu rhoi ar y farchnad yn y Deyrnas Unedig yn unol â rheoliadau ar draws Ewrop. Fel arfer, cyfeirir at gynhyrchion sydd â phwrpas ffarmacolegol fel meddyginiaethau a, fel y cyfryw, cânt eu trwyddedu drwy broses reoleiddio wahanol.** |
| 59. | ☐ | ☐ | ■ | Dylid ystyried hysbysu'r MHRA os yw dyfais feddygol ynghlwm ag achos o farwolaeth sydd dan ymchwiliad. |

## Adolygiad ar y cyd (hanfodol)

| | Wedi' i gwblhau | Adolygu | Heddlu yn Unig | |
|---|---|---|---|---|
| 60. | ☐ | | | Cysylltu â'r Awdurdod Gorfodi perthnasol a sicrhau eu bod wedi'u hysbysu'n llawn o'r digwyddiad a pha gam gweithredu sydd wedi'i gymryd hyd yn hyn, yna cytuno ar ba gamau gweithredu y dylid eu cymryd nawr a chan bwy. Gan gydnabod nad yr Awdurdod Gorfodi yw'r gwasanaethau brys, mewn rhai achosion ni fydd yn bosibl iddynt fod yn bresennol ar y safle i drafod yr achos. Os ydynt yn absennol, dylid cynnal Adolygiad ar y Cyd dros y ffôn. |
| 61. | ☐ | ☐ | ■ | Ystyried effaith cau rheilffordd ar Seilwaith Cenedlaethol. |

# ATODIAD 3: DYLETSWYDDAU UWCH-SWYDDOG YMCHWILIO

## Dyletswyddau uwch-swyddog ymchwilio

| | Wedi' i gwblhau | Adolygu | Heddlu yn Unig | **Y prif swyddog ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn ymchwiliad sylweddol yw'r Uwch-swyddog Ymchwilio. Fel arfer, Ditectif Arolygydd neu uwch yw hwn. Yn achos digwyddiad traffig y ffordd sy'n cynnwys marwolaeth, swyddog traffig cymwys fydd hwn.** |
|---|---|---|---|---|
| 62. | | | | Mynd i'r safle. |
| 63. | | | | Adolygu asesiad risg. |
| 64. | | | | Dechrau cofnod polisi. |
| 65. | | | | Adolygu'r safle(oedd). |

## Adolygiad beirniadol (hanfodol)

**Diben yr Adolygiad Beirniadol yw sefydlu'r mater o uchafiaeth. Dylai'r Awdurdod Gorfodi perthnasol fod yn bresennol. Mae'n bosibl y bydd angen mwy nag un Adolygiad Beirniadol wrth i'r ymchwiliad fynd yn ei flaen.**

## Sefydlu'r mater o uchafiaeth

| | Wedi' i gwblhau | Adolygu | Heddlu yn Unig | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Yn unol â phrif egwyddorion y Protocol Marwolaethau Cysylltiedig â Gwaith, fel arfer bydd Ymchwiliad ar y Cyd yn cael ei gynnal.<br><br>Opsiynau:<br><br>Ymchwiliad ar y cyd parhaus gyda: |
| 66. | | | | Yr Heddlu yn derbyn uchafiaeth. |
| 67. | | | | Yr Awdurdod Gorfodi perthnasol yn derbyn uchafiaeth. |
| | | | | **NEU** |
| 68. | | | | Yr Heddlu yn tynnu'n ôl – yr Awdurdod Gorfodi perthnasol yn derbyn uchafiaeth. |

## Rhyddhau / cadw'r safle

| | Wedi' i gwblhau | Adolygu | Heddlu yn Unig | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | **Cydnabyddir nad Gwasanaethau Brys mo'r Awdurdod Gorfodi perthnasol. Mewn rhai achosion, ni fydd yn bosibl iddynt fod yn bresennol ar y safle i drafod yr achos. Wedi dweud hynny, bydd angen i'r Swyddog Ymchwilio fynd i'r afael â chadw'r safle. Os nad yw'n bresennol, gellid cael y drafodaeth dros y ffôn.** |
| | | | | Opsiynau: |
| 69. | ☐ | | | Cadw'r safle gyda gwarcheidwad heddlu priodol. |
| 70. | ☐ | | | Cadw'r safle drwy ei ynysu, ond heb warcheidwad heddlu. |
| 71. | ☐ | | | Rhyddhau'r safle. |
| 72. | ☐ | | | Ac |
| 73. | ☐ | | | Os yw'n bresennol – trosglwyddwch y safle iddo. |

**Os yw'r ymchwiliad a'r safle yn cael eu trosglwyddo i'r Awdurdod Gorfodi perthnasol a'r Heddlu yn tynnu'n ôl o'r mater, dylid gwneud trefniadau i sicrhau cyswllt a chydlyniant parhaus rhwng y partïon.**

**Os bydd hyn yn codi, bydd yr Awdurdod Gorfodi perthnasol yn cyflawni ei ymchwiliad yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r awdurdodau perthnasol. Ni fyddai angen parhau â'r canllaw hwn y tu hwnt i'r pwynt hwn, ond dylid sicrhau cyswllt a chydlyniant parhaus rhwng pob parti ynghlwm.**

**Yn achos Ymchwiliad ar y Cyd lle mae'r Heddlu wedi derbyn uchafiaeth, bydd disgwyl i'r Uwch-swyddog Goruchwylio gynnal yr ymchwiliad o fewn y canllawiau a nodir yn y Llawlyfr Ymchwilio i Lofruddiaeth yn unol â'r Arfer Orau a sefydlir yng Ngweithdrefn Weinyddol Safonol yr Ystafell Digwyddiadau Mawr a'r Llawlyfr Ymchwilio i Farwolaeth ar y Ffordd pryd bynnag mae hynny'n briodol.**

# Atodiad 4: Ystyriaethau Arbennig

## Ystyriaethau arbennig

| | Wedi' i gwblhau | Adolygu | Heddlu yn Unig | **Er mwyn cyflawni Ymchwiliad ar y Cyd effeithiol, dylid ystyried y canlynol gan ymgynghori rhwng y partïon a dylai fod yn destun cofnod polisi'r Uwch-swyddog Ymchwilio.** |
|---|---|---|---|---|
| 74. | | | | **Strwythur Rheoli Ymchwiliad** – Yn cynnwys yr heddlu, HSE/awdurdod lleol/ORR neu Awdurdod Ymchwilio neu Orfodi arall i sicrhau bod pob buddiant yn cael ei gynrychioli. |
| 75. | | | | **Polisi Cyfryngau ar y Cyd** – I sicrhau rheolaeth effeithiol o'r cyfryngau drwy strategaeth gytunedig yn unol â'r cofnod polisi. |
| 76. | | | | **Strategaeth Fforensig** – Ystyried ystod ehangach y gwasanaethau gwyddonol ac arbenigedd technegol sydd ar gael i'r heddlu/HSE/awdurdod lleol/ORR neu Awdurdod Ymchwilio neu Orfodi eraill sy'n cydweithio â'i gilydd. |
| 77. | | | | **Rheoli Tystiolaeth** – I gytuno ar drefniadau ar gyfer rhannu tystiolaeth rhwng partïon â buddiant ac i gadw a datgelu deunydd. |
| 78. | | | | **Pennu Llinellau Ymholi** – I sicrhau bod ymchwiliad yn ystyried anghenion tystiolaethol pob asiantaeth sy'n destun yr Ymchwiliad ar y Cyd. |
| 79. | | | | **Rheolaeth Ariannol** – I sicrhau bod darpariaeth briodol yn cael ei gwneud o ran cyllideb gan bartïon yr ymchwiliad. |
| 80. | | | | **Pwerau** – Amrywiol bwerau ymchwiliol ar gael i asiantaethau parti. Mae angen gwneud penderfyniad ynghylch defnydd pwerau o'r fath a'u cofnodi yn y cofnod polisi. |
| 81. | | | | **Strategaeth Gyfweld** – Bydd angen i'r strategaeth gyfweld fynd i'r afael â dau faes penodol, sef tystion a'r rhai dan amheuaeth. Dim ond cyfwelwyr cymwys a ddylai gynnal cyfweliadau gyda'r unigolion hynny y'u disgrifir yn dystion Sylweddol a Bregus a rhai Sylweddol a Bregus dan amheuaeth. Argymhellir penodi Rheolwr Cyfweld Tactegol. Wrth benderfynu ar strategaeth gyfweld, mae'n bwysig cynnwys pob parti perthnasol er mwyn ei pharatoi a, pryd bynnag sy'n berthnasol, ei gweithredu mewn ffordd sy'n bodloni anghenion holl sefydliadau'r ymchwiliad. |
| 82. | | | | **Swyddog Cyswllt â'r Teulu** – Mae'n bwysig i'r partïon gysylltu â'i gilydd a chytuno ar drefniadau i rannu'r diweddaraf â'r rheini mewn profedigaeth ynghylch cynnydd yr ymchwiliad a'r materion iechyd a diogelwch a all fod yn berthnasol, e.e. camau gweithredu i'w cymryd i atal digwyddiad cyffelyb. |

# Atodiad 5: Lle Mae Gan Yr Heddlu Uchafiaeth

## Lle mae gan yr heddlu uchafiaeth

| | Wedi' i gwblhau | Adolygu | Heddlu yn Unig | |
|---|---|---|---|---|
| 83. | ☐ | ☐ | ■ | **Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS)** – Dylid ymgynghori â Gwasanaeth Erlyn y Goron yn y camau cynnar ac wedyn yn rheolaidd. Y prif fater i'r heddlu fydd sicrhau digonedd o dystiolaeth yn ymwneud ag ymchwiliadau i droseddau difrifol. Dylai bod yr Awdurdod Gorfodi perthnasol ymwneud â'r broses honno er mwyn sicrhau y rhoddir ystyriaeth lawn i'r holl ddeddfwriaeth gysylltiedig berthnasol. |
| 84. | ☐ | ☐ | ■ | **Cyngor Gwasanaeth Erlyn y Goron** – Yn seiliedig ar gyngor Gwasanaeth Erlyn y Goron, gall yr ymchwiliad ddatblygu i fod yn erlyn achos o Ddynladdiad a/neu Ddynladdiad Corfforaethol. Yn yr achos hwn, dylai'r Cydweithio barhau i'r graddau yr ystyrir yn angenrheidiol. |

**Wrth benderfynu pa un ai a yw erlyniad yn briodol ai peidio, bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn ystyried yr achos yng nghyd-destun 'Y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron'. Pe gwneir penderfyniad i beidio â chyflwyno achos am Droseddau Difrifol (ac eithrio troseddau Iechyd a Diogelwch), yna fel arfer, byddai'r heddlu yn rhoi'r gorau i feddu ar uchafiaeth ac yn tynnu'n ôl o'r ymchwiliad neu'n parhau'n rhan o'r ymchwiliad ar y cyd sy'n mynd rhagddo y mae'r Awdurdod Gorfodi perthnasol wedi derbyn uchafiaeth ar ei gyfer.**

**Byddai angen gwneud trefniadau i sicrhau bod yr achos yn cael ei drosglwyddo'n hwylus i'r Awdurdod Gorfodi perthnasol gan gynnal parhad a gonestrwydd yr arddangosion, y dystiolaeth a'r deunyddiau heb eu defnyddio.**

**Waeth pa asiantaeth sydd wedi derbyn uchafiaeth ar gyfer Ymchwiliad neu Erlyniad, anogir cyswllt parhaus hyd nes unrhyw brawf neu gwest dilynol.**

Mae'r ddogfen hon ar gael yn: www.hse.gov.uk/pubns/wrdp1(rev).pdf © *Hawlfraint y Goron* Os hoffech ddefnyddio'r wybodaeth hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/information-management/our-services/crown-copyright.htm am fanylion. Cyhoeddwyd yn gyntaf 09/11

Cyhoeddwyd gan y Pwyllgor Cysylltu Cenedlaethol ar gyfer y Protocol Marwolaethau Cysylltiedig â Gwaith (Cymru a Lloegr) WRDP1(diwygiedig) 04/18

Diweddarwyd gan y Pwyllgor Cysylltu Cenedlaethol ar gyfer y Protocol Marwolaethau Cysylltiedig â Gwaith (Cymru a Lloegr) WRDP1(diwygiedig) 06/2022 (DS)